

Celt
400
820

WIDENER LIBRARY

HX 15EX H

Celt 4005.822

Harvard College Library



FROM THE FUND

IN MEMORY OF

GEORGE SILSBEE HALE

AND

ELLEN SEVER HALE

William Williams
Gygoddean.

30th Sep. 1823

Xare

FFRWYTH YR AWEN:
SEF
AWDLAU, CYWYDDAU,
AC
YNGLYNION,
A DDANFORWYD
I EISTEDDFOD GWENT;
PA UM A GYMHALIWYD
YN ABERHONDDU,
DAN HAWDD
SYR CHARLES MORGAN, MARCHOG,
Y MAIN O FEDI, 1822.



ABERHONDDU:
ARGRAPHWYD AC AR WERTH GAN W. WILLIAMS;
AR WERTH HEFYD
GAN MESSRS. SIMPKIN A MARSHALL, STATIONER'S COURT,
A MR. E. WILLIAMS, STRAND,
LLUNDAIN.
GAN MR. KAYE, LIVERPOOL,
MR. EVANS A MR. HARRIES, CAERFYRDDIN.
1822.

Celt 4005.822



Hale fund

TO
SIR CHARLES MORGAN, BART. M. P.
TREDEGAR:
PRESIDENT OF THE CAMBRIAN SOCIETY
IN GWENT;
THE WORTHY REPRESENTATIVE
OF AN ANCIENT FAMILY,
FAMED FOR ITS LIBERAL PATRONAGE OF THE CAMBRIAN
MUSE:
THE FOLLOWING PRODUCTIONS
Of Poetic Genius
SENT TO THE EISTEDDFOD HELD IN BRECON,
September 24, 25, 1822,
ARE RESPECTFULLY INSCRIBED
BY THE
COMMITTEE.

AT Y DARLLENYDD.

RHODDIR yma ar Argraph, cywrainwaith dewisol y Beirdd a hebryngwyd i ystyriaeth Cymmrodorion Gwent; a nodir y rhai a farnwyd yn deilwng yn yr Eisteddfod yn Aberhonddu, o uwchaf nawdd a sulw y Gymdeithas. Derbyniwyd gwaith pum Beirdd ar destun yr Awdl, sef "Y Cyfnod gwiwgof o amser pan yr arferai ein grasusaf Frenhin, ac yntau yn Dywysawg Cymry, a breiniau gwerthefin y Deyrnas gyfunedig, fel Rhaglyw ar blaidd ei Dad, y Brenhin Sior y Trydydd." Amcan neillduol y testun oedd mawl i ryfelwyr Brydain yn gystal a'i Pen-swyddogion; yn yr amryw frwydrau a ymladdwyd rhyngom ni a'r Ffrancod, ond yn enwedig yr ymdrech olaf a gorchestol hwnnw ar Faes Waterloo. Nid i Loegr yn unig, ond i Gymru, Albaen ac i'r Iwerddon, y mae clod yn ddyledus, am gampau ein Capteniaid a'i gwyr yn y frwydyr ofnadwy hwnnw, pa un, ni cholli'r byth gof am dano. Os gwych a wnaeth ein milwyr, nid gwael y cofiant am eu dewrder gan Feirdd Cymru. Gwaith

Casnodyn ni roddir yma, am y bernid ei iaith a'i ddull yn annealladwy i Gymreigwyr yr oes hon; gwaith *Gwion Bach*, a ofynai llawer o ddiwygiad, a'r Awdwr ei hun, ni fynnai i ni ei dodi yn y Wasg, heb iddo roi ei law wrtho yr ail-dro. Nid oes yma achos i ni gannol ehediad grymmus yr *Eryr*, ac ni fydd *Hanesydd* a *Chynfelyn* heb eu clod.

Am y Cywyddau, yr oedd o honynt bumtheg, a gwaith *Iocyn ddu* a fernid nesaf at y goreu, ond danfonwyd am dano adre gan yr Awdwr, ac felly nid oedd lle ei roddi yma. Gwaith *Einion*, gan ei fod heb nemmawr o feiau yn yr iaith a'r cynghanedd, ac heb fod ynfaith, tehygwyd yn wiw gennym ei argraphu. Am *Gân Moesen*, pwy a synna wrth weled ei ragoriaeth, gan na allai fod neb gymmwysed i gannu ar y cyfryw destun!

Yn mherthynas yr Ynglyaion, derbyniwyd lliaws o honynt, rhai yn ddigon gwael allan o dri-ugain a rhager na hynny o wif. Gwelir ez hynny, ied amryw yn rhagosi, ac antawdd fu gwaith y Barawyr i bennedi, i ba na y dykid rhoddi y tlws. Gwaith *Nobal*, o herwydd addased y syniadau, a fu agos a chario'r gamp, ond y tawc croill yn rhywiocach y cynghanedd ac yn llithriocach yr iaith.

Yr ail, gan *Bhedydd*, a foddia rhai ond oddi o flaen y cyntaf. Ercill, a dueddant i farnu, fe allai, rhai o'r Ynglynicion o *Ferthyr* ym mhilith y teilyngaf, a chan fod amryw o Ddeheubarth ymhilith y goreuon gwelir fod y barnwyr yn ddiduedd at yr ardal lle cynhaliwyd yr Eisteddfod. Ni chafodd y Beirdd pellenig un lle i gwyno yn hyn, mwy nac mewn achosion ereill, o un diffyg hawddgarweh eurtriad yn Aberhonddu. Da, ar yr un pryd oedd gweled; fod yr Awen heb ganu yn iach i'r ardal hynny, lle y bu hi unwaith mor flodeuog—Parhaed etto, i *annerch Morganwg a'i thai gwynion*.

Gan fod llawer o Fonedd yn ymhyfrydu coleddu y Beirdd, er eu bod eu hunain yn anhyddysg yn y Cymraeg, peth arferol yw eu hannerch yn iaith Lloegr. Hyn a wnaethpwyd gan Mr. Thomas Jones, y *Bardd Cloff*, o Lundain, a chan Mr. Henry Davies o Lundain, mab i Mr. Davies y Cyfrwywr, gynt o Ben-Bont-yr-Ogor, ym Morganwg. Ynglynicion rhywiog y Parch. D. Evans o Geredigion, er clod i Ifor Hael, a theulu Tredegar, cawsant eu dynwared yn y Saesneg, gan Mr. Hughes o Aberhonddu, er mwyn dangos parch i'r Uchelwr urddasol yn y Gadair.

Ynghylch y ddau Draethawd; yr un ar "Brif helynt yr Iaith Gymraeg, a'i dull yr awron," a argraphwyd eisioes dan olygiad yr Awdwr, Mr. John Hughes, gydâ chwanegiad helaeth. Hyn a gyflawnwyd ar draul y Parchedig wr-da yr Arch-Diacon Davies o Aberhonddu. Y Traethawd arall, oedd ar Alanastra Caer-Caradoc, sef Brâd y Cyllill hirion, ond nid cymmeradwy o hono gan y Barnwyr, am fod cynnwysedig ynddo bethau llwyr groes i rediad ein Hanesiaeth a'n traddodiad gwladol.

Yn gymmaint a berthyn i y dull o ysgrifennu a llythrennu, gadawyd hynny i'r Beirdd eu hunain, heb i'r Argrahydd na'r cyhoeddwr rhyfygu ymyrred a hynny.

J. H.

AWDL*

AR

RAGLYWIAETH EIN GRASUSAF FRENIN

SIOR IV.

(NEU YR AMSER HYGOFUS PAN Y RHEOLODD EFFE Y
DEYRNAS GYFUNDIG FEL RHAGLYW)

O'R PRYD Y TIRIODD

Y LLUOEDD BRUTANAIDD YM MHORTUGAL,

HYD Y

Pubugoliaeth y goncubus yn Waterloo.

GAN ERYR.

CYNNWYSIAD.

PENNOD I. Ail goroni yr hên Frenin & henaint—Ei
Fab yn cymeryd y llywodraeth yn ei le ef—Dull ei
sedd—Tywysog Cymru yn brif Lywiwr y deyrnas—
Yr awdwr yn edrych yn ol i'r Chwyldroad
yn Ffrainc—Napoleon yn cymeryd y deyrn-
gadair—Yn myned ar ryfelgyrch i'r Hispaen,—
Croulondeb digyffelyb—Brydain yn clywed am
dano—Y Tywysog Rhaglaw yn ei weled trwy
wydryn o làn y môr—Ei araeth wrth ei Feibion,
—Y lluoedd yn cyfodi ac yn myned ymaith—
Ei llwyddiant—Y pethau hynodaf yn mhob
brwydr hyd ddiweddiad y Rhyfel yn *Toulous*.

* Barawyd y Gadair i Awdwr yr Awdl hon.

PENNOD II. Yr awdwr yn dyfod adref i Frydain, ac yn mynegu am yr heddwch i'r Tywysog yn Annedd Carlton—Yn myned drachefn i Ffrainc, i alw y lliuoedd adref—Ei siomedigaeth—Brwydr *Waterloo* yn dechreu gyda thoriad y dydd—Y Brutaniaid yn cychwyn o *Brussels*—swm magaelu, a distryw anferth—difetha gobaith yr amaethwr—Rhuthriad y gelynion, a gwrthwynebiad dewrywych gennym ninnau—lladd Syr THOMAS PICTON, clwyfo ARDALYDD MŌN, &c.—echryslondob y Frwydr—Llwyr orchfygu y Gelyu, a'i ymlid, gan BLUCHER—Yr awdwr yn ddiolch i Dduw am yr heddwch cyffredinol.

PENNOD III. Yr awdwr yn llawenhau—ei obaith—ei hiraeth am ei gartref, a'i ddychwelyd—Gadernaid Ynys Brydain—ei rhyddid a'i breintiau rhagorol—changder y llywodraeth—tiriondeb y Tywysog—ei wrthwynebiad i Babyddiaeth—Tyfriad Pren y Bywyd—ei ddail yn iachau y Cenhedloedd—Cymdeithas y Biblau, &c.—lleshad y Paganïaid—Cenhadon Brutanaidd yn y ddwy India ac yn ysoedd môr mawr y De—Cyfnewidiad rhyfedd yr Indiaid, y rhai a fendithiant ein Tywysog yn feunyddiol—Y Celfyddydau—Ysgolion—Diolch i Dduw, ac erfyniad am ei nawdd trwy y bywyd hwn, ac yn yr hwn a ddaw.

PENNOD I.

EIN Brenin iesin, er oesi—'n dirion.

D'ai oriau pen-llwydni;

I'w enwog ail goroni

A blodau'r bedd!—rhyfedd ri!

Eiddilon ddyddiau olaf—yr anwyl

Hên Frenin hawddgaraf,

Y pênwyd ei Fab hynaf

Yn RHAGLAW yn nwylaw Naf.

Heddyw nych giliôdd yn ôl—

I ddiad dydd cadeiriol

Y Gwron yn dirion daeth

Gwawl anwyl Haul Rhagluniaeth.

Cyfiawnder a gwâr drugaredd,—ddaliai

Ar ddwylaw ei Fawredd;

A rhif o Engyl rhyfedd

Dano, fel na siglo'i Sedd!

O! mor hynod i GYMRU enwog

Wel'd ei hiesin anwyl DWYSSOG

Yn y deyrnas yn Bèn cadarnog,

Llywiawdwr gwrol a llaw drugarog,

Union ddoeth Eneiniog—yr Ynys wên,

A Llyw llawen yr Hollalluog!

Mor hardd y gwelir brodir BRYDAIN,

Dan Raglywiaeth ei odiaeth adain;

Niferoedd ein gwlad furain—sy môr fâd,
Mal t'w'niad ar doriad gwawr dwyrain!

Gwrawl ym mhob goror—yw ei gleddyf
Tra gloyw-ddu;—mae dramor;
A gwiw engyl ei gyngor
Yn haid yw meistriaid y môr!

Yn awr edrychaf yn ôl,
I'r maesydd fu'n ormesol;
A chwiliaf ddrych o helynt
Y gwr o *Gorsica*, gynt.

Dacw lywodraeth *Ffrainc* helaeth hoyw-lon,
Ar ei hiawndaith, fel llong ar wendôn,
Awel geinwch i'w hwyliau gwŷnion,
Gwên haul, wawriad araul, yn dirion;—
Ond awyr o'i llênau dŷon—chwythodd
Nes agorodd hon yn ysgyrion.

Wela draw uthr *Chwythroad*.—mawr derfysg,
Fel môr dirfawr riad;
Crôch floedd gân lŷoedd y wlad
Am ysig drwm ormesiad.

I'r achos blin edrychaf
Trwy fawr gŵr, aç eglur caf
Weled draw trwy'r dial trwm,
Wrthrych y rhyfel gorthrwm.

Eu Piler, (sef *NAPOLÉON* *)—godwyd
I'r deyrngadair ddigllon;—

* Napoleon Bonaparte.

Yno'n hir, ni lanwai hon
Giliau ei ddrygfalch galon!

Ae'n ffin â'i fyddin ar fyr
Yn arwain cynllun ERYR,
A braint oruchel a bri
I boeni yr *Hisbaenwyr*.

Mor gaeth eodd ei driniaeth dro;
Nes ydwyf yn arswydo;
Fy enaid a wnae'n fynych,
Gan wylaw, droi draw o'r drych.

Nid oedae'r Anghredadyn—*anwylaidd*
Ddynolion—un mymryn!—
Ei awydd ef a fwriai ddyn
I'w bidog † fal gwybedyn!!

O!r miloedd sy ar drwm waelod—*annedd*
Anenwog y beddrod,
A yrai ef, rff yr od,
Drwy'r iasiau i dir isod!

Yn hyfedr, O! na fedrwn,
Ar len hir ddarlunio hwn,
Pe gallwn,—dwys bwys y bai
A grŷnai gaerau Annwn.

Pa alaeth na wnae NAPOLEON—*lew*,
Gyda'i luoedd creulon;—
O'i rwygedig ergidion
Oer y brâth yn llawer bron.

† Bayonet.

'E boenai wedd' *Hysbaen* wych,
 Dàn iau ewynfahan n fynych,
 Ei ddwrn ar *Portugal* ddaeth
 Allan, a'i holl erchyllaeth;—
 Ymwânodd lawer mynwes
 I'r pridd, dàn ei aerwy prës;
 Ymweliad fel cymylau
 Dŷon fygythion, i gau
 Du astrus ddorau distryw;
 O'i ôl ef gwlad farwol yw,
 A gwedd ei drwm gigyddiad
 Fu yao'n gorlwytho'r wlad.

Edrych y drych!—ôl ei draed;—
 Mawr ruddfaniau lle bu'n bod;—
 Chwalfa gôch o lif a gwaed;—
 Gwlad glwyfus dàn aethus nôd!!

Ow! Ow! dacw anferth goelcerthi—ysig,
 Dinasoedd yn llosgi!—
 Cuchiog awyr yn cochi!—
 Ai *hên g'langauaf* yw hi?

Na! na! 'r oedd yna ryw ddydd—yn y coed
 Sain cân a llawenydd;—
 Heb liw un briw yn y bröydd;
 Ond rhyfel, a ddaeth i'r trefydd,
 A iselai bob preswilydd;
 Ië, eu helaeth-hölydd
 A dwfnwaed yn un defnydd,—a welaf,
 A garwaf drwm gerydd!

Afon o waed a fu'a wir
 Yn rhedeg, yu eu brodir ;
 O ! hyllaf fâr ! nid all fod
 Dyfais, nac un prudd dafod,
 A fedr yn heinif adrodd
 Rhàn fêr am y gerwin fodd
 A welodd *Hisbaen* ŵylawg,
 O ddyfnder chwerwder ei chawg !

'E lanwai'r echryslonedd
 Glustiau Brydain, gain ei gwêdd,
 Yn iâs tòrodd tosturi
 'N afon o'i chalon wêch hi.

Yna mùd ar làn y môr,
 Megis un ar ymagor,
 Y caid ei THYWYSOC gwyn,
 Yn edrych yn ei wydryn ;
 A chanfu na fu'r faih fâr,—
 Nag wylô, na mwy galar ;—
 Na chreulonach, flinach floedd
 Yn bod, o fewn y bydoedd !

Yna y llew, yn hyll iawn,
 Gàn saeth yr alaeth creulawn,
 Drwy'r awyr a droi rüad,
 I lwy'r gynhyrfu y wlad,
 I gychwyn i'r dig achos,
 Cyn dyfod anorfod nôs.

Bywiog Dywysog * iesin,—(o lwynau
 Ein moliannus Frenin,)

* Sior IV.

Yn foddus at ei fyddin,
Gŷrai araith faith o'i ffin.—

“ Y nwyfus ddynion hyfodd !
“ Gofal NER tyner a'ch tôdd
“ Yn fawr, amseroedd a fu,
“ O hir filain ryfela;—

“ Codwch, ymgesglwch i gyd,—yn wychion
“ I achub yr holl-fyd;
“ Mewn awch oll, mynwch hyd
“ I goren, neu safn gweryd!

“ Mal eiddig wŷr yr ymladdoch,—(wychion,)
“ Tra b'o breichiau wrthoch,
“ Na dernyn o gnawd arnoch,
“ Fynu â'r gain faner gôch!!

“ Od erchyll yw'r enbyd orchwyl,—gwedi
“ Chwi a gewch gadw noswyl;—
“ Tra byddwch na chadwch ŵyl
“ Ond hōno, fy mhlant anwyl!!”

Yna miloedd yn edlym welid,
Urddas y deyrnas mewn cadernid;—
A'n hoenus fro gynhenid—adawem,
A mawr oeddem am awyr rhyddid.

Gollwng, O! Dduw y gallu,—i wilio,
Angylion o'n deutu;
Meirch cochion llymion, sy'n llu
Ar EWROP, yn gweryru.

Wele y lluoedd byddinoedd enwog,
 Hoenus a gwrol, ein hynys gaerog,
 Wedi morio, a glânio'n galonog,
 A'u gwawl odiaeth ar *Portugal* lidiog,
 Yn myned yn llumanog,—i wellhau
 Oer ofidiau, y ddwy wlad* orfodog.

Gwyr anorfod yn d'od yn odidog,
 O dan anwyl law *WELLINGTON* enwog,
 Ag eirf gloywlas y deyrnas gadarnog,†
 A'u llumanau yn lliwiau tra llewog;
 A manwellt i'w heirf miniog,—tra esmwyth,
 Yw holl adwyth eu hen âlon lliidiog!

Bob amser, cofser, mat y Duw cyfion,
 A rydd ei fendith, heb rith i'r *BRYTHON*, ‡
 A Llywydd glew ar eu lluoedd gloywon;
 Ië, nid ofnant glwyfau dyfnion,
 Na dinystriol dân estron, eu rhuthriad,
 Na mawr ddylanwad myrdd o elynion.

Tiriasant yno trwy *ISSU*,—yn wir,
 Gân wrol wynebu
 Y lliidiog liosog lu,
 A'i holl wanc, oedd i'w llyncu.

Dyrnaid o'n gwŷr ni'n darnio—moliant
 Y miloedd oedd yno;—
 Ag aban § maent hwy'n gwibio
 Hyd ryw ffyrdd, i gyd ar ffô!

* Spain and Portugal. † Great Britain. ‡ British. § Tamult.

Fe ddofwyd y gwelch gynt oedd mŵr feilchion
 Eu carchard, a'u brathu, wnae'r BAYRHON;
 Gwneyd yn adwyau eu muriau mawrion,
 A dwyt swyddi beilch eu dinasyddion;
 Hwyt darawent eu brodorion—yn gaeth,
 A mawr alaeth i blith marwolion.

'E fwriwyd eu holl furiâu,—all ystyr
 I bridlestr, yn ddarnau;—
 Lle oedd ar gylchoedd i'w gau,
 Adawent yn adwyâu.

Gŷrwyd PICTON ragorol—i arwain
 Ymwriad esgusol,
 Yn lle hynny, wele ol
 Hên wyrthiau ei law nerthol!

Gwag esgus na gwyw gysgod
 Tra byddai, ni fedrai fod!

Yno 'e daniodd ei ysbryd enwog,
 Ac, gan ruthraw, gyda llaw alluog,
 Dan iasiau gerwin i'w dinas gaerog,
 Efe a dorodd eu harfau durog;
 Ymwânodd ei gledd miniog—trwy gannoedd
 O eirw filoedd NAPOLEON ryfelog.

Do 'e synwyd *Badajôs* enwog,
 Gwewyr falai ei gwŷr rhyfelog;
 Llaw y Llyw Hollalluog—rôe i hon
 Ô waelodion y gwppan lidiog.

O! 'r wyneb o drueni!—y ddinas
 Oedd enwog, mor ddiſtri;
 Dyna burwaed yn berwi
 Fel môr, ar ei hallor hi!

Gwyr meirwon, fel cerig o'r marian,
 A welwyd, rhai ddyrnwyd yn ddarnau,
 Swn oernych! rhyw fynych ruddfanau,
 O! uthr ôl adwyth! yr aelodau
 Yn myned yn domenau!—brig anian
 I'r dylluan allan yn ddryllian!*

Er pob peth di fetb a fu
 Ein Byddia, yn en baedda;
 O'i hofn hi, ni safon neb
 O honynt, yn ei hwyneb,

Dyna'r awyr dan rîo,—yn dechren
 Mewn dychryn gydweithio;
 Yn melltagw uthr ymwylltio,
 Yn folltagw, trwy'r frwydrwg fre.

Uchod y clywent grochiaith,
 Neu rym elfenau ar waith;—
 Poenau † âlon pan welynt
 Saeth hên, o gawell y gwynt!
 Arwydd hael o ryw rodd hên,
 Un dull ac fu'r golofn dân,

* Y Dylluan ao adar ysglyfaethus, y rhai a gaalynant ryfel i'r diben o ymborthi ar gyrph y lladdedigion.

† Gâlon, ENEMIES.

Ystyr i'n gwŷr ni fel gwên,
Iddynt hwy gofwy, a gwân.†

Rhyw werthfawr lwyddfawr ymladdfa,—welaf
Yn nôl *Salamanca*;
Eö, aethus ddyfetha,
Er hyn, daeth i derfyn da.

Dynion WELLINGTON yn wych,
A'u hynodrym yn edrych
Yn awchus nifer fechan,
Yn y maes, ar yr un màn,
Câd lôn NAPOL'ON, heb ball,
Yn euraidd, mewn màn arall,
Yn fyddin fawr ryfeddawl,
A'i lluniau gwiw yn llawn gwawl.

Ond fe gaid llygaid fal llew,
(Hynod welai fal du-lew,)
Yn wrol i hen *Arwr*
Brydain, ag arwain wnaï'r gŵr
Ei wrolion, ar alwad
Nerthol, i ganol y gâd.—

A dwysaf erchyllaf archollion,
A galanas, rhwygai'r gelynion;
Ymwriawg beli mawrion—a luchiodd,
Y rhai'n daniodd i ddarnio dynion.
Ac un tyniad pylor yn tanio
Y lās awyr—pelau i sïo,—

† Digwyddodd taranu mawrion o flaen pob brwydr yn y rhyfelgyrch hwn; ar yr hyn yr edrychai eja milwyr ni fel arwydd sicr o fuddugoliaeth; ond gwàngalonid y Ffrancod yn fawr ganddynt.

Braw erchyll,—tir gwaedwyllt,—ergydio,—
 Croch rinc,—a sain arfau yn tincio,—
 Hoff lman gwyr *Ffrainc* yn fflamio,—gwanog
 O'u hais tyllog waed yn pistillio.

A ha! *Vittoria!* y lle tirion,
 Oes i'th gaeau odlau hyfrydlon,
 O'th ddeutu yn tyru gantorion?
 Draw y gwelir dy fwyn drigolion
 Yn holliadau alltudion,—brawychus,
 Oerion aethus, yn haner noethion!

Rhwy olwg hagr yw gweled mam a'i dagrau,
 Hyd ddwy-rudd lwydion, wynion ddefnyau,
 Ei BABAN tirion, a'i weinion enau
 Yn bur anwyl, yn sugno 'i bronau,
 A'i dillad yn rhwyg dyllau,—ar dwmp grŵg
 Gwael, a barug, yn disgwyl y borau!

Braw yw edrych-ôl dinystr y brwydrau,
 A'u galarus, aethus, flin effeithiau;
 Tai y didwyll fal canwyll yn cynau,
 Eu holl waith helaeth yn daullwyth olau,
 A'r gwânawg fellt o'r gŷnau,—roent ar led
 Wyr a'u nodded, hyd lawr yn garneddau.

Yn y mawrwaith ein GRAHAM wrol,
 Yn wrthiawg, a fwriai yn nerthol,
 Ail waneg i wyr *Ffrainc* elynol;
 O'i hynod ymosed grymusol
 Ni ddiengai yn ddiangol,—ond lloffion
 O wyr mawrion, yn haner meirwon.

Wela'n bywiog ryfelog filwyr,
 Weithian, yn wiw suddugoliaethwyr,
 Gwyr BRYDAIN rwygai'r bradwyr—rhoent
 berffaith
 Anobaith, i'w holl wrthwynebwyr.

A'r hynod fro'n taranu—'n ysgothria,
 Ein byddin fu'n baeddu,
 Yn hollol, elynol iu,
 A'i uchelion yn chwala.

Ein PICTON, etto'n ddiattal,—drwy wlad
 A'u herlidia'i'n ddyfal;
 Gando'r oedd dwylo llawn dâl,
 Am ddöer eu trwm ddial.

Yn eddu ar fynyddoedd
 Y *Pyrenees* par iawn oedd;
 Mewn flamian drylliau di drai,
 Y malai ef eu miloedd!

Yno 'e gamoedd yr enwog wron
 Ar gloddyfau, galonau gelysion;
 Hefyd, tra hir y gwelir y galan,
 O'i Al yn anogorol ysgynion.

Bostio wnai *Sant Sebastian*,—y mawroedd
 Ei muriau, tra llydan;
 I'n gwyr, nid oeddysat end gwân,
 Nid ellynt eu cadw allan.

Yno tynodd llur BRUTANIAID,—i gwr
 Y garwaf le tanbaid;

A'r di ri' beli di baid,
Dorai eu caead euraid.

Ni wyrai'n byddin wrol,
Ni throë wyneb neb yn ôl;
Y goron hon, i'w mwynhau;
Neu, angau, a'i lys ingol!

Drwy wiw foffant, wela'n dewr filoedd,
Ruthrent at safnau'r gynau, 'n gamoedd;
A flywiwyd ein holl luoedd,—â nerthol
Law wybodol, hen Lyw y bydoedd!

Drwy y muriau draw ymwrant,—gleddeeth
Ar y gloyw-dder sathrent,
A llymion iawn y llasant
Ar un ffull, tros fryn a phant.

Yno'n gerth gwelwyd gwerth gwael
Ac achos colli cochwael;
Buan ro'id llawer bywyd,
Fel hyn, am berlyn i'r byd.

Hyn a roddwyd am lân wawr heddwch,
(Perl prydlon i goron hawddgarwch,)
I'n holl anneddau gael Honyddwch,
Ac i'r frodir,—cywir hyfrydwch,
A gwiwlan ddiogelwch;—da obaith
I'n tai, eilwaith, gael gwên tawelwch.

At *Orthes* yu nes, ni awn,
I olwg y frwydr greulawn,

Caf yno gigyddio gwyr,
 Rhyw filoedd o ryfelwyr
 A'r big ddŵr yn y cŵr caeth,
 Yn taro trwy naturiaeth!

Ein gwyr bywlawg, llamawg, a thra llymion,
 Welaf eto'n dinystrio'r hên estron,
 Tòri'n ddarnau eu rhëolau creulon,
 A gwneyd eu hanneddau beilch yn deilchion;
 Ysgarent hwy'n ysgyrion,—llawer cànt
 A fwriasant, o'u gwŷr heirdd yn friwsion.

Atynt am unwaith eto,—ydd anwyl
 Fyddinoedd sy'n rhuithro;—
 Trist i'r Gorthrymwr y tro,
 Droï allan *Ffrainc*, i'w dryllio.

Dacw ruthriad y chwyrn gadau,—a'u sŵn
 Yn dadseinio'r creigiau,
 A dynion gwylltion yn gwau
 Drwy bylor, a dur belau!

Yn y difrod yn dewfrith,—y malwyd
 Eu milwyr yn draphlith;
 Y plwm a yrwyd i'w plith
 O'r gynau, fal hau'r gwenith!

Hwy a dŵrwyd fal derwen,—i lwydaidd
 Gofleidio'r ddaearen;
 Eu brigog a'u banog Ben
 Aeth yna, fal eithinen.

Rhyfodded gweled gwag wawr,—a gwaelod
 Y galon trahausfawr;
 Colledig acw, a llwydwawr,
 Yn *Toulous*, aethant i lawr!

'R ôl darfod hynod swm taranan
 Y du gethin farnedigaethau,
 Mi a welaf (heb liw cymylau)
 Y lwys henlog awyr lās olau;
 Byw loywdrem deg belydrau,—di-ryfel,
 A gwawr dawel ar gaer y deau.

Af yn ol, at fy nheulu,
 Dàn wenawg oes Brydain gu;
 I'r lawenawg fro lonydd,
 Trigolion rhadlon, a rhydd.

Af i rodio bro fy hyfrydwch
 Gyda changen palmwydden heddwch,
 Agoraf ddalen hawddgarweh—perffaith,
 I ddweyd eilwaith am dda dawelwch.

PENNOD II.

BELLACH, at Dduw yn ddiballu—denaf,
 I roi diolch mwyngu,
 Drwy f'einloes, am derfynu
 Ufel tost rhyfellað du.

I dŷ'r enwog Dŵr union,—i fynu,
 Af i **ANNEDD CARLTON**;*
 Agoraf i'r myg Wron,
 Ryw gofres o'r hanes hon.

*Carlton House.

Amrydedd yr Ymerawdwr †—hadlbaroh;
 I Elba'n ‡ garchartwr
 A yrwyd;—gwasgarwyd y gwr
 A'i wyllt waed yn alltudiwr.

Awr yw hon mae Ffrainc yn rhydd,
 A Louis § ei hiawn lywydd,
 A'i agwedd fal bendigaid
 Wr doeth, yn nghadair ei daid.

O ofalon rhyfeloedd—a welwyd,
 Af i alw'r lluoedd,
 Bellach, i'r llawr iach lle'r oedd
 Eu siriol gyn-amseroedd.

Af a mordwyaf y don,
 I'r glanau bu'r gelynon,
 Yno yn deg iawn y daw
 Talaith i ysgwyd dwylaw:
 O! rhyfedd! mae gwedd mor gain,
 Briodi Ffrainc a Brydain!!

Ond och fi mae düach fâr
 Yn y weidgi ryfelgar;
 Wedi disgwyl anwyl hynt,
 Tra blin a gerwin gorwynt
 Anhuddodd fy mwyn heddech,
 Yn llawr iselaidd y llwch.

Ac, O! y lās fro Asur!
 Yn iach it, bellach, a' th'bur

† Bonaparte. ‡ The Lark of Elba. § Louis XVIII.

Wenau!—Cymylau alaeth,
 Ac amser o ddigter ddaethi;
 O! Dduw cu! pa bryd bu bâr
 Duach, uwch ben ein daear!!

Tywyllwch sydd yn mantellu—gwyneb
 Gwiw anian;—mae'n llechu,
 Yn hyllog gadarn allu,
 Boreuddydd o dywydd du.

Prin yn awr cael gwawr gain,
 Ar dori, tros gaer dwyrain,
 Mae sain RHYFEL!—magnelu *
 Trwy'r dyffryn, er dychryn du!

O! Dduw da! dyma'r dydd—wedi gwawrio,
 Hyd gyrau y bröydd;
 Y goron, neu'r du gerydd,
 Yn ol ei fantol a fydd!

Cynwrf mawr ac udgann—*Brussels*,
 I brysur yngasglu,
 Ar chwerwddig flin roch, oerddu
 Foreu tost y ddifrod ddu!

Hen gyfeillion, a llawer carenydd,
 A brawd, fe allai, ddelai'n ddialydd;
 Gyru yn gauedig baiarn† (gawodydd),
 O'i droellawg wely, er dryllio'n gilydd
 Diau, mynych domenydd—elwyfedig;
 A rhôch fileinig y march aflonydd!!

Wela yr egr gyflegrau,†—yn gannoedd,
 Yn bwrw gwinas belau;

* Heavy Canonade. † Shells. ‡ Canons.

Ergydion gwelwom yn gwau
Acw, a'u hanadl yn cŷnau.

Gorengwyr enwog rwygant,—dirywir
Hwy ar d'rwiad amrant ;
Yn hyll ochus y lluchiant
Wron gwych yn ddarnau gant !

Lluddedig wyr, a lladdiadau—mawrion,
A marwol 'sgrechiadau ;—
Y cadarn haiarn yn hau—
A rhinc ing, yn nhranc angau !

Bu'r wlad, heb un brâd, mewn bri,
Yn hoenus, a brôn heini,
Yn disgwyl, heb un gŵyl gaeth,
Am odiaeth amser medi ;

Gwr roe ymaith ei anwylwaith,
O ran gobaith i'w rawn gwiw-ber,
Cadwai noswyl i lôn ddisgwyl
Ei gwâd anwyl â gwên dyner.

Ond, O! *amaethwyr* wên dâg !
Na chŵynwch yn ychwaneg,
Os cewch ar ryfelgar fyd
O'r braidd ryw fawaidd fywyd ;
Rhyw ddiwrnod wawriodd amoch
O fwy câr,—*Cynhamaf côch!*
Y meirch sy'n rhuthro, fel môr
Gerwin i rwygo'ch goror !

Rhuthro mewn gwanc mae y *Ffrancod*,—*frâthian*,
Mewn aethus erchyllod,
Yn cywain dân hynt cawod
O beli,—ni yw eu nôd

Gwelid Llywydd y gŵalon,—â'i wydryn
 Yn edrych y BRYTHON,
 Yn dda, mewn golygfa lôn,
 I annog ei ffrôm ddyinion.

Tra chwyrn gyflegrau (*tri chant*),
 Draw a wynias daranant,
 Bwriant ddig hyllig allan
 Yn dost mewn cawod o dân!

Yna eu milwyr, mewn cymylau,
 Yn eu dur-wisg, yn gedyrn dyrau,
 Redent i wyneb ein Catrodau,*
 Yno, i orfod min ein harfau.

Yno ymwithio i'r maes
 Cuchfawr, nes cuddio'r coch-faes,
 Yn dost, wnae'r *Ffrancod* trwy'r dydd,—
 Gwàliau ar ol eu gilydd!

Hynt arw! fel tŷonau teryll—yn curo
 O flaen corwynt erchyll,
 A chraig gref i wrthsefyll,
 Cenllif côch, harfroch hyll.

Anwyl *Ryfebwyr Brydain* euwog,
 Yn eu lluoedd a safai'n llewog,
 Dàn ergydion trallodion llidiog
 Trwy'r dydd, gyda'u Llywydd galltrog
 (Er eu curo,) fel muriau caerog,
 Dàn ruthrau dolesau dylifog.

* Battalions.

Gwrel y mynent hwy y goron ;
 Neu, un fwriad fod yno'n feirwon ;
 O'r meusydd guro y gormesion ;
 Neu ddychwelyd menydd a chalonn.

Yn y rhuthiad ofnadwy,
 A'r hynt hyll a fwrient hwy,
 Daeth oriau dyddiau diweddol— tymor
 THOMAS PICTON,* nerthol,
 A'i fyddin, (werin wrol,)
 Yn hŷf yn dilyn ei ol.

Er adfyd, rhoe oes ddrudfawr
 O gariad i'w wlad i lawr ;
 Yr hen ffyddlon WRON, oedd
 Trwy foliant y rhyfeloedd,
 Gan drengu, fu wrth ei fodd
 A gwyneb tawel, gwônodd
 Mewn côr, yn sengl min caeth
 Y bedd, gael Buddugoliaeth.

Pelau tost NAPOLÉON,
 Yn chwai, a frathai ei fron ;
 Cwmpodd yr hên ben bencampwr ;
 Och! och ni! o golli'r gŵr !!

Teimlodd, a gwelodd gâlen
 Ladd mawr, gan ARDALYDD MÔN,†
 O awch llamawg ei ryfelfeirch llymion
 Yno, pylodd lloedd NAPOLÉON ;—

* Sir Thomas Picton.

† Marquis of Anglesey.

Yn anesgorol, gwnaeth yn esgyrion;
 Ddewr galonau ei dduriog clynicion;
 'E daenodd rym *Ffrainc*, ai dynion,—yn rhydd
 Hyd y gelltydd, fal y pryfed gwyltïon.

! *Hwch*, hefyd, sy'n anafol
 Yn bod, a'i aelod o'i ol;—
 Ond da ganddo weled dydd,
 A'i foliant yn hiefelydd
 I sabboth hir diseibiant,
 Bu yno'n curo mil cant.*

Y gwych fu'n ddryllïog ei wawr,—ar glodd hallt
 ARGLWYDD HILL† rymusfawr;
 Dirymodd wŷr *Ffrainc* dramawr,
 A'i ddu lŷd, gannoedd i lawr!
 Wr anwyl!—dweyd pob gronyr
 O'i glôd, ni all tafod dyn.

Och! yr olwg dra chreulon—llengau o
 Gadau, a'u hergydion
 Dial, hyd yr ardal hon;—
 Muriau o gyrph y meirwon!!

Llwyr gurwyd llawer gwron,—oedd ddewrnaws,
 Yn ddarnau at feirwon,
 A chri alaeth, a chreulon
 Hen frâth y plwm, yn ei frôn.

* Sylwer mai ar y Sabboth yr oedd y Frwydr hon. Dywediad Ardalydd Môn wrth dori ymaith ei glun oedd, "Pwy na chollai aelod am y fath fuddugoliaeth?"

† Lord Hill.

Rhwygedig, rai'n curiawg waedu—yn lawr,
 Chwyrn feirch yn carlamu
 Eu cyrph, yn sathr i'w mathru
 Yn llaid, tãn garnau y lhu !

Ogylch safn barn yn agor—O ! brudd lag !
 Bwrdd angau yw'r oror !
 Gofid sydd yn dygyfor,
 Mal tãnau ymylan môt.

Plwm du yn yscythir's coed,—
 Y gwellt yn fathrfa mewn gwaed—
 Malu, a baeddu pob oed !
 Yn ddarnau,—drylliau tãn draed !

Darnau aelodau'n faledig—hollol,
 Yn dêrylliau annelwig !
 Yn mhob lle wele, trwy'r wig,
 Greadur gwasgaredig !

Ymwasgfawr un gymysgfa,
 Rhai creulon,—rhai dynion da,
 A'u gwaed yn gymysg ;—eu gwynt
 Yn chwyrnu, a meirch arnynt !

Gwelaf wyr *Ffraino* ar gilio,—yn deneu
 Mewn dinystr yn syrthio,
 Ag ERYR, wedi'i guro,
 Aeth yn awr i lawr :—HOLO !!!

I lu'r balch wele oer ben—
 Ail godwm amlwg *Eden* :—

Fal gwreichion gweinion y gôf
 Tàn eington, ânt yn anghof
 Yn y glŷn, yn gelanedd ;
 Rhân y beilch yw yr un bedd :
 Nifer mawr ar y llawr llaith,
 Llân mae eraill ymaith,
 Yn hualawg eu helynt,
 A gwedd y llwynogod gynt*.

A moliant ein Penmilwr,
 Yn unfodd, a dorodd dwr
 Y gwr a'i lywodraeth gau,
 Dàn ei ddyrnod, yn ddarnau.—

BLUCHER roddai hêr o'u hôl,
 A'i ymosod grymusol,
 A thrwm lid i'w herlid hwy
 I'r lidiog farwol adwy ;
 A haul têt goleud dydd
 Yn iesin ar ein meusydd,
 A'i lewyrch a oleuodd
 Y lle fu mewn tw'llaf fodd.

Er nesu grym amryw deyrnasoedd,
 A llawer o benau a'u llüoedd
 Dynodid BRYDAIN ydoedd—rhoi palliant,
 A llwyr foliant, i'r holl *ryfeloedd*.

Wedi brwydrau trymion dridiau,
 Deuai golau diogelwch ;
 Wele siriol haul hyfrydol,
 Gwениad haeddol ganaid heddwh.

* Barn. xv. 4.

Ha! wedi muddfa'r trwm saflyd, gwelodd,
 A dyddiodd, dedwyddyd
 GWAWR HEDDWCH, i gyrlaeddud
 Pob pen i bellu y byd!

I Dduw arwyl, am ei orchwyl,
 Hyd fy arwyl & diferion
 Diolchiadau, fel pren ffrwythau
 Gwyrdd, o giliau gwraidd y galon.

PENNOD III.

HA! ha! Ewropa sy'n rhydd, a'f adref
 I edrych fy mroedd,
 I'r llannerch war a llonydd;—
 Fy mawr serch ar fy niro sydd.

Caf wella'r holl archellion— a gefais
 Dan y gofid creulon,
 A gwrol roddi'r geron
 Yn rhydd, i fy Llywydd llon.

O rhoed yr ION yn e' strued i
 Ar riniog fy rhieni!

Bellach, yn iâch ddiballu,
 O sawr dwrf y dyfn-fôr du,
 Wele fi, a'm gwael fywyd,
 Mewn teyrnas wen sydd ben byd;
 Yn hon caf ffyddlon goffau.
 Eirian nodedd rhinweddau,

A gwaith ein RHAGLYWYDD gwyoh;
Gwawriodd oes dra rhagorwych.

Uchel yw'r ynys fechan,—ni osia
Teyrnasoedd byd llydan,
Na Glyw, roi troed ar ei glân
O'i hanfodd hi, yn unfan.

O môr hêr a sawr ei bwys,—yw heddwrch
A rhyddid pob Eglwys,
Ar hyd hen fro glyd a glwys
BRYDAIN;—yr ALL BARADWYS.

Y truan a'r gwân i gyd,
Hyd yr hoywfro dra hysgud,
Yn bur addolant UN BOD,
Yn debyg i gydwyhod.

Un o saith o'n dyddiau sydd—iach aol,
At achosion crefydd;
Da iawn yw i'r dyn newydd,
A hoff oes,—cynhanaf fydd.

Yn awr, ein Tywysog ni,
Ar Alon sy'n rhôli,
Gwnaeth greulon anghirion haid,
Yn geinwyr, o'r Paganiaid!

Arafai'r llongwyr hefyd,—ar rân sawr
O'r hên fôr terfysglyd;

Rhwydddaidd y gall gyrhaeddyd
O'i fainc fwyn, ddau begwn byd!

Mae'n Dad tirion i'w holl weision,
Genau gweddwon, gwàn ag eiddil;
I'r iselwedd rhydd drugaredd
A digonedd;—nid yw gynnil!

Baeddodd ef olion *Pabyddiaeth*—i gyd,
O'i gadarn lywodraeth;
Tòrai'r iau, ni chaent gau (n gaeth,)
Dorau yr Iachawdwriaeth.

Mwyn RYDDID, fal tirion afonydd;
Rêd i lenwi ein hardal lonydd;
Bro addwyn, a phelydr boreuddydd
Llòn, a gwenawg, yn llawn o gynnydd.

Gwelaf ryw BREN tra gwiwlon,—a'i radau
Yn nhir *Brydain* dirion;
O! mor wych yw llewyrch llòn
Ei frigau'n nofio'r eigion!

Mae beunydd mewn cynnydd cain
Llawndwf, yn ninas *Llundain*;
A llês mawr yw ei wawr wên,
Un cyngor yn dair cangen!*

* Cymdeithas y Biblan, y Cenhadau, ac at ymladdu Gwybodaeth
Gristionogol.

Cymdeithasau i gael Beiblau,
 Wychion heidiau, a Chenhadon,
 I wrthsefyll dŵch erchyll
 Dëau tywyll Indiaid dŵon!

Gwir wybodaeth Cristianogaeth,
 Draw yn helaeth, drwy'n hëolydd;
 Dynion gwresog cymdeithasog,
 Llön, eginog, llawn o gynnydd!

Tair Cymdeithas fawr! a'u hurddas
 I gu deyrnas yn gadernid;
 Llyfrau doethion, a Chenhadon,
 Orau rhoddion, aerwy rhyddid!

Fe welir y dail filoedd,—yn wych iawn
 Yn Iachâu'r Cenhedloedd;—
 Genym ni mae eli oedd
 Yn eisiau, trwy'r *hen* oesoedd!

Wela'r CENHADON, yn weision grasol,
 Draw, âg addysg EFENGYL DRAG WYDDOL,
 Heddyw ar ranau'r *India Ddwyreiniol*,—
 Beiblau yn hau *Ynysoedd deheuol*,—
 A llwyni yr *Orllewinol India*,
 A'u Hosana i Dduw yn gysonol!

Rhyddhau caethion, o'u chwerwon garcharau,
 Gwella aflwydd annedwydd eneidiau,
 Fu yno beunydd yn y dwfn boenau,
 A gwasgedig tân dduon gysgodau

O lwythog hudoliaethau;—yn unfodd,
Haul a wenoedd ar ddiion fliynau!

Ai'r *Brython* yw gweision myg *Iesu*,
A'n LLYW gwrol yn llaw i'w gyru
Tros fôr maith, i'r gwaith o bregethu
'N oefa, ag odiaeth, Grist fu'n gwaedn
Ar y pren, er eu pryau!—Hwy, ya wir
Yno weŵr yn ofengla!

Yno, gynnan, yr oedd *Pagasaid*
Yn filoedd, fel yr anifeiliaid;
Rhoddent eu nawl i Ddiawl, a'i ddeiliaid,
A gwaed abai anwyl era gadw'r canid

Ond heddyw mas'n fyd diddan,
Ceir yn eu mysg gymysg gân
I Grist, a fu ar y groes
Ei hunan, i gadw'u heinioes!

Newidiwyd eu bro'n *Eden*,
A lliw gwawr i'ach HAUL LLOEGR WEN!

Mawr dwrf sydd yn *Môr y De*,
Hwy fwriant i'n LLYW'n fore
Odiaeth bêr ddiolchiadau,
Clod, am eu hynod ryddhau.

Mae hendithion Indiaid diion
Ar ei goron, yn aur gaeau;

Am ei orhwyf cafi bob naswyl
Geinfawl anwyl, gan fillynaw!

Dýma amser hoywber hat,
Adeg y celfyddydau.—

Trwy ein tir gwelir Ysgolion—dwysgon
Er dysgu tylodion,
A gwên TRWYSOG union
Mor striol!—O! frawdol frôn!

Diodid, pe dywedwn
Nes darfod y tafod hwn;
Am rinwedd a mawredd maith,
Haner ei waith ni henwn!

Pan ddaeth ei RAGLYWIAETH glyd,
Daeth bri goleuni trwy'n gwlad;
Mawr freintiau trwy barthau'r byd,
Tangnefedd, a rhinwedd, a rhâd!

Yn awr, âf at ein Duw ni,
A mwyn wedd, am ein noddi,
I ddiolch am a ddeüodd
I'n hanwyl wlad, o'i rad rôdd;

A gofyn wnaf am gyfoeth,
A llafur dwys o'r llyfr doeth:—
O dŷ bedd iâch a di ball,
Yn dirion mewn byd arall,

Ar ôl hynt trwy y wael oes,
 Yr elom i'r bur eiloes;
 Yn ddi loes, a'n hoes heb
 Eiddilder, trag'wyddoldeb
 I un egwan yn agor
 Yn y fân, diderfyn fôr
 Didwyll, heb sŵn rhedadwy
 O dân sêr, am *amser mwy!!!*

BRYR,

neu W. E. JONES, o DDOLGELLAU,
dhias Gwilym Cawrdaf.

AWDL,

AR Y CYFNOD GWIWGOR O'R AMSEK, YR YMARFERODD
HIN GRASŴSAP FRENIN

SIOR Y PEDWARYDD,

fel *Arjantben,*

A BREINIAU GWERTHEFIN UNBENNAETH GYFUN-
EDIG YNYS PRYDAIN A'I BHAOCYNYSOEDD;

YR ENWEDIG O'R DYDD Y TIRIOND

Byddinoedd y Deyrnas hon ym Mhortugal,

KYD DDYDD EU

BUDDUGOLIAETH OGONEDDUS

AR

FAES WATERLOO.

Yngyd a 'chwanegiad byr ar Farwolacth eis diweddwr Frenin Sior y
TRYDYDD, a Chereniad ei Fawrhydi SIOR Y PEDWARYDD, &c.

DYRED Awenydd dirion,—dwyg inami

Dy gymmorth i gyson,

Draethu cynnes hanesion

Dewr nawr hwyl y Deyrnas hon.

Nef ferch gain firain fawrwerth,

Wyt ddidawl o nwyfawl north;

Dyro eurddawn drwy urddas,

O'th anian i'th wiwlan was,

A phwyll i ddidwyll dd'wedyd,

Y gwir, yn gywir i gyd.

F

Tremia f' awen dan wenu,
 Ar Frydain y fro gain gu ;
 Gwel ei * rheol ddeddfol ddwys,
 A'i hoywlon Lywydd hylwys ;
 A grym ein Llywodraeth gref,
 Di eiddil fu rhaid addef,
 Pan oedd yn hên ein Brenin,
 A † blaidd rhuadwy a blin,
 Cyfrwys elyn eyn dyn cas,
 Gwael swyddog ail i Suddas,
 A'i fryd ar lwyr ddifrodi,
 Golud a nerth ein gwlad ni ;
 A'i arfogion croesion cras,
 Mewn taerni am ein teyrnas.

Teyrnas gyfaddas gu foddol,—a brwd,
 Er bradwyr gormesol,
 Ein prydferth filwyr nerthol,
 Calon un nis cilia'n ol.

A'n morwyr yn ymwriaw,
 Yn hwylus yn drefnus draw,
 I yrru mellt yn eirias,
 Ar y cefnfor gloywfor glâs,
 Yn barod nawn a borau,
 Gyferbyn a'n gelyn gau.

Briwient a rhwygent i'r eigion,—longau
 O lynges yr estron ;
 Yn syn gwnaent i elynion,
 Soddi'n llwfr is dwfr y dôn.

* Ei Chyfreithiax.

† Napoleon Buonaparte.

Gwyr trawsion dewrion a dorrwyd,—lluocedd
 I'r llawr ddarostyngwyd ;
 A llawer yn nigder nwyd,
 I fol âr a faluriwyd.

BONI a fu yn bennaeth—y gwledydd
 Goludog ehelaeth ;
 Ym † *Mhortugal* dial daeth,
 I fron hwn, a'i frenhiniaeth.

Os poenodd ef *Hispania*,
 Ca'dd Prydain fad ddifrad dda,
 Yntef i'w phalf mewn dalfa,—mawr ddychryn
 Wnai'n gelyn yn gwla.

Anfonwyd gyrrwyd gwerin—o Frydain
 Y frodor wiw iesin,
 Heb ofn na braw draw i'w drin,
 Baeddwyd ef gan ein byddin.

Wellington hylon a hwyliodd,—ei dorf,
 A dirfawr ymladdodd,
 Ffrainc i ebwch tristwch trôdd ;
 Gelyn o'i flaen a giliodd.

Glyw dewr y'mhlaid gwledwriaeth,
 I *Lisbon* yn eon aeth,
 Bwriodd i âr daear-dôn,
 Do, ladron dilywodraeth.

* An army under the command of Sir Arthur Wellesley (afterwards Duke of Wellington) destined for Portugal, where it ultimately landed, consisting of about 10,000 men, sailed from Cork on the 12th of July, and arrived at Corunna on the 20th, 1808.

Rhodda i'r Spain ei rhyddid—o'r camwedd
 Er cymmaint fu'r erlid,
 Rhag nerthol elynol lid,
 Medrai amddiffyn *Madrid*.

[*Moore* oedd yn wr mawr addas,—a chadarn
 Warcheidwad i'n Teyrnas,
 Nerthol foddol utudd-was;
 Och! bu poen i'w lu pan * lās.

Ardalydd Môn wiwlon was,
 I'w loyw-ddur ni bu luddias,
 Darniodd fradwyr y deyrnas,—cadwai'n ol
 Elynol alanas.

Hill a fu gynnîl gennad,—a bywiog,
 I bwyaw eirth anfad.
 A hoenlyw dewr o'n hen-wlad,
 Oedd *Picton* Gwron y gad.

Rhyfaith im' unwaith enwi,
 Ein hyfol wyr nerthol ni,

Oll oeddynt yn dra llwyddawl.—wir enwog
 Wroniaid llwyddawl,
 Ddygent i'n gwlad fuddugawl,
 Y gwrthrych o fynych fawl.

Erchyllaf Wyr archollwyd,—gan Frython,
 Llawer Gwron i'r llawr a gurwyd.

* This brave General fell in the battle of Cerunna, January 16th, 1809.

Ym Mro Glan * *Douro* dacarwyd—iliaws,
 A llawer gymmerwyd,
 I oer garchar amryw gyrchwyd;
 Dir am lwyddiant dewr ymladdwyd;

Llu yr estron oll a rwystrwyd,
 Ein gelynion wangelônwyd,
 Gweilch anfad o'r wlad erlidiwyd,—miloedd
 O dorfoedd a darfwyd.

Y Gálon yrrwyd i gilio,—o'r fan
 Ar fynydd † *Busaco*;
 Ni bu chwerwach trymach tro,
 Yn eu gwyneb nag yno.

Rhag eirf dur Arthur wrthiol,—a brathlad
 Y Brython egniol,
 Ai'r fyddin fawr ryfeddol,
 Tan griau a neidiaw'n ol.

Yn dýrau chwerwon diras,
 Tros bigog le oreigiog cras,
 I'r dibin mawr diobaith,
 Eirwon weis Ow! erwin waith.

Yn awr i ddyfod yn nes,
 At duedd rhinwedd yr hanes;
 Pennodi wyf pan ydoedd,
 Ochain tristaf bliaf bloedd,

* *DOURO*. A river running through Spain and Portugal.

† See Lord Wellington's official account of the battle of *Busaco*, addressed to the Earl of Liverpool, dated Coimbra, Sept. 30th, 1810. Gifford's *Hist. of the Wars*, p. 604.

Trymedd yn ngwledd tramor,
 Hynt a fu tu hwnt i fôr ;
 Teyrnasoedd, lluoedd mewn llid,
 Ymrafael, a mawr ofid ;
 A gelyn drwg yn gwgu,
 Fod Prydain fad ganwlad gu,
 Yn ardal dirion eurdeg,
 Heb ryfel yn dawel deg :
 A'n Brenin ar fia oer fedd,
 Yno egwan ei agwedd.
 Ein Senedd wyr yn seiniaw,
 Eu cyd-lêf yn y † Dref draw,
 Yn lew am ddyn i lywio,
 Ein siriol hardd freiniol fro.

Er bri i'n rheoli rhawg,
 Dewiswyd gwiw † DYWYSOG
 CYMRU, (y fro lwysgu lân)
 Yn Rhaglyw mwyn rhywioglan ;
 Bu yn enwog ben Ynad,
 Ein Llyw dewr yn lle ei dad,
 Yn gwiliaw'r fad hen-wlad hon,
 Rhag bradwyr treiswyr trawsion ;
 Rhyfedd yn eu dannedd dig,
 Ffrwynodd fygylywyr Ftreinig

Anfon da weision dewisol,—a wnaeth,
 Yn eithaf buddugol,
 Gydâ nerth i gadw yn ol,
 Galonau gwyr gelydol.

† Llundain.

† The Prince of Wales was appointed Regent, February 6th, 1811.

Ym *Madajos* dangoswyd,
 Grymusder yn uchder nwyd ;
 Blm fu'r dydd i luyddion,
 Newydd irad, braeniad bron,
 A thrwm i'r hyll orthrymwyr,
 Ar y Castell fod gwell gwyr ;
 O warth wylent wrth weled,
 Arfogion cryfion eu cred,
 Sef * Picton a'i lewlen lu,
 A'r Faner fawr i fynu.

Tros gaerau a muriau, main
 Parodawl filwyr Prydain,
 Yn hyfol ar ysgolion,
 Esgynnent llamment yn llòn ;
 A rheolent wyr hylm,
 Y dref er mor gref ei grym.

Marchogion taerion + *Fittoria*,—gurwyd,
 Gan ein gwyr mewn lladdfa ;
 Anwyl Frython dewrion da,
 Brwd daenent glod *Britannia* ;
 Fal ydoedd yn fawledig,
 Am droi gâlon duon dig,
 A gwarthus yn eu gwrthol
 Tros bènau † mynyddau'n ol.

* General Picton took possession of the Castle of Badajos by escalade, April 6th, 1812.

† VITTORIA, a town in Spain, where the Duke of Wellington gained a glorious victory, June 21st, 1812.

‡ The French were driven over the mountains of the Pyrenees to their native country.

Pelau poethion,
 I'n gelynon,
 Drwy arwyddion, draw a roddent ;
 Dig arfogion
 Napoleon
 Yn ysgyrion a wasgarent.
 Gwalch twyllodrus,
 Cenfigenus,
 A fu rŷmus, ef a rwyment,
 Gwnaed ei drigfa
 'N Ynys Elba,
 Y gwr chwerwa' a garcharent.

Och fi ! 'r estron, mewn lliid a chyfrwystra,
 Wnaeth fawrdwyll trwy amhwyll y tro yma,
 Barus ei elfen i'w hen breswylfa,
 Yn sŷn deuai'r gelyn i dir * *Galia* ;
 I'r bwystfil oer bu westfa,—gyda bloedd,
 I alw ar filoedd i ail ryfela !!

Ebrwydd rhoddai arwydd orn,
 Flaidd adgas trwy floedd udgorn ;
 A galw y'ng hyd wnai'r gelyn
 Bob heriwr o swyddwr sŷn ;
 Ger eu gwydd cyfarwyddai
 Ei weision chwerwen yn chwal,—

“ Deuwch ymdrechwch am drais,
 “ Fintai cymmerwch fantais ;
 “ Mynawch ennillwch yn ol
 “ Frodir hen Ffrainc hyfrydol ;

‡ France.

" Yn rhadaw! cewch anrhydedd,
 " A gwynfyd, hawddfyd, a hedd."

Ac i ollaw! gau allan,
 Frenin LEWYS o'i Lys Iân,
 Troi'n elynaw! fradaw! fryd,
 Wna'r o'fyd † NAY, wr a'han.

'E drodd yn rhywfodd y rhod,
 Uno i geisio gosod,
 Hen elyn gwyllt ffreonwyllt Efrainc,
 Ar ei swyddfawr orseddfainc.

Er bloedd rhai mibedd a mwy,—drwy lawen
 Droï LEWYS ar aswy;
 I ymlid a'u herlid hwy,
 'E gai nerthol gynnorthwy.

Gwelid gwiwlan,
 Arwydd eirian,
 Parod anfan y Prydeiniaid;
 Ac o'u lledol,
 Awstriaid nerthol,
 Wyr dirusol, a'r da Rwsiaid.

Pân oedd y lluoedd môr flôn,
 A'u gilydd yn un galon;
 Yn *Flanders* draw, bu braw brudd,
 I'r gelyt cer ei gotudd.

† Marshal NAY, who turned a traitor to the French government, and was afterwards tried and executed.

* Prwsiaid,—Prydeiniaid, pur doniol,—aethont,
 Yn eithaf egniol,
 Yn un fryd o anian frawdol,
 Gyda'n Arthur i gad nerthol;
 Ef a'i restrï ni fu rwystrol,
 Iawn ennillont yno'n ollol,
 Wlad Ffreinig lle dyffrynol,—oedd greulon,
 Dan estron dinystriol.

Dewr gwiliant y bradwr gwelw,
 Bob awr ar lawr *Waterlo*;
 Cwmpent a briwient ger bron,
 Ei ryfygus arfogion;
 A bu cad ddychrynadwy,
 Ddyfal cyn eu hattal hwy.

Trwm waith tra mawr,
 Aerfa erfawr!

Ymladd diorphwys yn dradwys † dridiau;
 Sŵn mal nerthol derwynol daranau;
 Llewych a phylor, luchiau a phelau;
 Meirwon tân draed a'r gwaed o'u rhwygiadau,
 Llanwodd y tir yn llynnau,—pan gwmpent,
 Fyrdd o wyr sengent ar farw ddrws angau !!!

* The Prussians and Britons, were the only part of the allied army engaged in the sanguinary Battle of Waterloo, the Austrians and Russians not having arrived.

† This horrid Battle lasted three days, viz. the 16th, 17th, and 18th of June 1815. On the 18th Napoleon was totally defeated.

Ac yn ddirfawr lwyddfawr ymladdfa,
 Dialedd fu'n dilyn gelyn *Galia*,
 Dduodd i oerfel ddiwedd ei yrfa,
 Yn lle mawrbarch cael ammharch yma,
 Ac ailboen gwaeth noc *Elba*,—trosglwyddwyd
 Nes hwnt, a lanniwyd e'n *Saint Helena*.

Y *Corsican* druan draw,
 Yno welid yn wylaw,
 Mewn trymder a blinder blin,
 I feddwl am fyddin,
 Hir lywodraeth, a'r * loywdref,
 Gelloedd heirdd a golloedd ef.

I'r adyn hwn yr ydoedd—poen dirfawr,
 Pan ddarfu rhyfeloedd:
 Hefyd, gwiwdeg adeg oedd,
 Felus, i amryw filoedd.

Cael mwynhau dyddiau diddan,—cu heddwch
 Cyhoeddwyd yn fuan;
 Cael agor i'r gloywfor glân,
 Da ddorau gwledydd eirian.

Trwy ddifrad gariad geirwir,—ammodawl,
 Rhwymedig, a chywir,
 Cawsom drefnus weddus wir
 Undeb, a'r holl gyfandir,

Yn ol hyn bu syn seiniad,
 Anfynych gan glych ein gwlad;

* Paris.

Gloyw darian ein gwladwriaeth,
Gwedi nych, ein gadaw wnaeth!

Ein Branin mwyn a breiniol, — gwaraiddaf,
Gytraeddwyd yn farwol,
Gan sacthan angau ingol;
Galarwyd, wylwyd o'i ol.

Mewn galargwyn,
Am ein enfwyn,
Wron addwyn ei rinweddau;
Prydain dirion,
Ac Iwerddon,
Wylent bruddion ddigron ddaugrau!

Rhag dechrau rhwyg a dychryn,
Mewn gwlad ymddifad o ddyn,
Cyn-fab Sior, ein Por, a'n Pen,
Yn Llywydd, a'n gwnai'n llawen.

Hynod Aer parod i'r penwyl, — ydoedd,
Ar adeg i'w ddisgwyl;
Ac wedi hyn gyda hwyf,
Coronid ein Cawr anwyl.

Tra pharchus yw Glyw ein gwlad, — a ddynion
A ddenodd trwy gariad,
Mal ei fwynlon dirion Dad,
A chyfiawn ei ddyrchafiad.

I Gymru 'e fu yn faeth, — i godi
Hen gadair dysgeidiaeth;

Mawr yw'n bri noddi a wnaeth,
Beraidd anian Barddoniaeth.

Gwiv ryddid gu a roddodd,—i'w ddeiliaid
Addoli o'u gwirfodd;
Bob duwiol grefyddol fodd,
Dall addas, da llwyddodd.

Tros ddyfraedd moroedd mawrion,—yn fynych
Anfonid * Cenhadon,
Y dêr Efengyl dirion,
Da waith yn achos Daw Ien.

Ynys Prydain gain ar gynnydd, fytho
Yn faeth i wir grefydd:
Poed SIOR hawddgar BEDWARYDD,
Yn dêr diffynwr y Ffydd.

Duw anwyl a dywyno,—ei fendith,
Yn fwyndeg i'w lwyddo;
Hir oes fyg i'w Râs a fo,
A dynion cywir dano.

HANESYDD,
SEF, JOHN HOWELS.

* *Missionaries.*

AWDL,

AR

* RAGLYWIAD SIOR TYWYSAWG CYMRU,

YR HWN YR AWBON

YW EIN GRASUSAF FRENIN.

THE CONTENTS OR ARGUMENT.

Britannia in deep distress—enquiry into the cause—
 Divine Providence thought proper to afflict her
 aged Monarch, but she cheerfully revives on see-
 ing his Son assume regal sway as Regent—Invo-
 cation to the Awen to descant on his merits, and the
 effects of his Government, which eventually pro-
 duced Peace, and banished fierce havock to its
 bloody lakes.

The narrative commences with the springing up from
 the bottomless pit, of a Phanthom, called by the
 French "Liberty"—its frightful and rapid pro-
 gress disguised in the garb of true Liberty, whose
 residence was Great Britain: at length it is ex-
 posed and banished to its native abode, by the
 efforts of our Regent, but not before it had set on
 a high eminence; a man of wonderful fame
 (Bonaparte)—His career in overthrow Thronising
 &c. &c. copiously treated of, his progress stop-

* The author hopes to be excused in giving the subject the above term, for
 the sake of brevity, it comprehends the whole.

ped by our Regent; first by subduing his Navy, and afterwards by a series of victories by land, in *Portugal*, and *Spain*, under our modern Arthur (Wellington)—Bonaparte then in a rage turns his thoughts towards the bleak North—His disastrous expedition to *Moscow*, his retreat and terrible disasters, with his consequent banishment to *Elba*—His return from *Elba* and re-ascending the French Throne—which leads to the battle of *Waterloo*—The Battle that ensued described in all its horrors, until victory crowned the Arms of Britain, under her brave hero, Wellington—The return of peace—All these wonderful events ascribed, under divine Providence, to the wise exertions of our Regent and his council, aided by the bravery of his troops.

The A W E N is now requested to sing of more pleasing themes—The glorious return of peace and tranquillity, and the happy state of the country under the Regency—The decease of King George the third, on which his Son ascends the Throne—The flourishing state of the arts and sciences, and of general literature under his auspices—His patronage of public charities, particularly those for the instruction of youth (of which the Welsh Charity School is a noble instance)—Improvements in the Metropolis, especially the Regency Street, Park, &c.—The whole concluding with a devout prayer for long life and prosperity to him, and peace and happiness, in conjunction with meek charity to all his loving and faithful subjects.

AWDL, &c.

PRYDAIN bun gain ei gwedd,—a welid
 Yn wael ei sylwedd;
 Dyranwyd, er da rinwedd,
 Iddi glwyf gan ryw ddig gledd.

Pa elyn a fu'n pylu
 Mor enbyd, gwynfyd ga?

Duw Ior goleuni da ei Ragluniaeth,
 Awdur y bydoedd dir ei wybodaeth;
 Llywydd yn nef, a lluoedd hoen afaeth,
 Pybyr iawn Eaw uchlaw bob brenhiniaeth,
 Trefnu hir nychu a wnaeth—ei Llywydd,
 Ac—Ow!—o herwydd y cai hiraeth.

Dihoeni gwnai du henaint
 Ei Sior, heb ruchor mewn braint;
 Ai Brydain wiwber, ydoedd
 Mewn nych, ac yn ymwan oedd,
 A naws gwael, nes y gwelai
 Wedd arab ei Fab di fai

Arwyddlon hwn a weddai—o nodedd;
 A hen o'i weled hwy ni wylai!

O! fwyn Awen, fy nuwies,
 Der dy nwyf, dyred yn nes!

Canwn myfyriwn am fawredd—Rhagtyw
 Rhy eglur anrhydedd;
 Tywysawg, enwawg geinwedd,
 Hen Gymru,—gwnai haeddu hedd,

A heddwch, a'i thegwch, hywaith a hygar,
 Mawl i'w Duw ymwelai a daiar;
 Glyws ei llef, a gwiw leisiau llafar
 A groesawynt ei theg wres hywar:
 Somwyd a bwriwyd bwr—dra glythawg
 Eilun gau euawg, i'w lŷnau gwyar.

Pendraphen poenai dripharth
 O ein byd, mal enbyd arth;
 A gwyr byd, garw eu bai,
 A gwyn ddrwg cynddeiriogai.

Cynt tarddu o'r fagddu fwl,
 Yn arw ei wedd, a wnai rhyw WYLL;
 Aeth ef byth i eithaf bwl
 Anwiw poeth, ai wyneb hyl;—
 Galwyd ef—pwy a geolia?
 Yn Rhyddid diwyd a da!

Taenu gwnac, neud hyn yw gwall,
 Genau balch, gwnai'e yn bell;
 Ai ragrithiawl ddiwawl ddall
 A gludai ddielfi f'r gwledydd oll.*

Yn ein bro, ag union bryd,
 Gwar oedd yn byw GWIR RYDDID;

* The Phantom, called by the French, "Liberty," well deserves the above character, from the horrible effects it produced.

Hon oedd i luoedd, fun lwys;—
 Gogoned y gwnai gynnwys
 Yn eu lle, bob iawn a llad,
 Gwiw gerynt i gu gariad.
 Ond y gŵyll—ys erchyll son—
 Anfadawl ddaw ynfydion!
 Was belawg a ysbeiliai
 Wisg y dda fun waisg ddifai.

Yno'r aeth anwiw rithedd,
 Aerawg law, a hir ei gledd,
 Ac yn chwai cyffröai Ffrainc,
 Er soddfa i'r orseddfainc—
 Heb barch i neb, bu erchyll
 Arllwys gwaed er lles y gŵyll:
 Ffrancod yn barod bob un,
 Addolynt ef, ddu eilun!

Cawr llwyr odiawg, gwyarlyd ydoedd;
 Hy erwin ofeg heiriai y nefoedd!
 Hyll arw Foloch, llawer o filoedd
 Efe a ddenai i'w anwiw fyddimoedd;
 Ac ehud â'i modd cyhoedd—ei lwyddiant,
 Ei fawr ogoniant a'i fri i gannoedd!

Mal hyn, bu y gelyn gau
 Blin eiddo, rai blynyddau,
 Trwy deyrnasiad—rhediad rhydd,—
 Tra odiaeth SIOR y trydydd;
 Ond SIOR, (sef ein hen Ior ni)
 Ei ddu frad gwnai difrodi:
 Gofidus i'w gau fydoedd
 Gýrai ef er mae garw oedd.

Rh'oi a wnai mewn gorhoew nod,
 Wr a henw* mawr hynod!
 Ar unwaith mewn awr anwiw,
 Yn wych eu llewyrch a'u lliw,
 Yr âi belydr Apolion
 Addoer hynt, trwy'r ddaear hon!

Gwybynt—chedynt yn rhy hudawl,
 Trwy honi eu nwydau tra hynodawl;
 Ie ac yn dwythig y Cun dethawl,
 Gan fri ei fyddin gwnai'n fawr ryfeddawl
 Ei wlad—trwy enhuddiad hawl—ac enwau
 Y dwywol eu bronau deulu breiniawl.‡

Eres addas orseddau—gwer Ewrop,
 Gan arwydd ei wyrthiau,
 Cwmpynt,—gwywynt modd gau
 A dinerth, heb ddim doniau.

Yna yr ehedai ei anrhydedd!—
 Brenhinoedd niferoedd, gan ei fawredd,
 A'r hyfawr enw a hir fu i'w rinwedd,
 A welwyd trwy arswyd ger ei orsedd,
 Un cryfhawl! yn crefu hedd;—mawr barchwyd,
 Do—yma y galwyd am ei angeledd!

Rhoddid yn rhwydd,
 A bri'n ebrwydd,

* Viz. Bonaparte.

‡ This was literally the fact; the royal family of France, not only lost their property, but also their names and titles.

Wr swyddfawr, ar orseddfainc
Siglawg, waed frydiawg Ffrainc :
Ac efe hir gafai haf,
Nen lwyddiant— tyciaat tboaf;
A gloew dymp idd ei glod oedd,
Eurwid yn ben brenhinoedd !

Eia gelyt, osf anben Galia, — llyna
Y lleawid o draha ;
Lluyddai ef, a llwydd dda,
A fu i'w arfog hyf yrfa.

Ond calon— dda frow— ddi fraw
Ddewr hyglod, oedd i'r RHAGLAW.*
Pwy onid y llyw penaf
A mawr nerth, trwy ryh ei naf,
A wnaid i'r gelyt argiliau
I wleb drem Eilba draw.
A chlod gwedi machludaw—'r ol deuraidd
A mawr ddawn lewaidd enyrddiynau dywlaw?

Y RHAGLAW yw'r gwr byglod
A'i allu'n wych a llawn nod ;

Ia ein Sior gwnai hyn, a naww wrawl,
Trwy ei foddion a'i wyr tra ufuddawl,
A gallu'r gwron gwiw— llwyr ragorawl—
ARTHUR† a'i fyddin, wyrthiau rhyfeddawl!

* Tybiodd yr awdur fod Rhaglawn neu Rhaglyw yn enw mwy gweddus na "Rhaglaw."

† Duke of Wellington.

Hy enw gwych hwn a gai,
Dannedd y llew a dŷnai!

Ar ol i'n morwyn, da arwyr deuwion,
Gwir galonawg guraw eu gelynion,
A garw rwyglad eu gyssu o'r cigion,
Unwedd y gwalid hwy yn ddi-galon:
Ni feiddynt mwy gan foddion—Sior a fydd,
Enbyd ymyryd a'i longau mawriod!

Yno ar facs yn arw 'a fu—yn aml
Yn ymladd, nes darfu
Ei fyddinoedd feddianu,
Ceurydd ei wledydd a'i luf!

Arfau Sior a hir fesurynt
Allu y galon oll lle y gwelynt;
Gwresawg iawn y goresgynynt,
A llym iawn lwydd, y lle ymlledynt:
Gwyr Yspain a hir adwaenynt—ein cad,
Dewr arwyddiad a roai iddynt.
Portugalwys! pwy yw'r tra gwiwlon
Wr, a roddai i chwi arwyddion
O gu ryddid, gyda'i gwiw roddfion?
Wela! ond hyf WELLINGTON—a'i arwyr,
Wir Brydeinwyr a bwriad union!

Y Ffreinig Lyw ffyrnig ffel,
Brwd awchus, a bryd uchel,

* This alludes to the battle of Trafalgar, under Lord Nelson, which led to the war in the Peninsula.

Tra gwglyd tua'r gogledd,
 Trwy hir glod, troaie ei gledd :
 Ond i'w ran lle rhy anial,
 Cai yno er syrthio yn sal !

Ei dynged, er nad angau,—a'i denai
 Hyd yno'n llawn gwyrthiau;
 Ond unyt wyr llawn doniau,
 Dyrys dym, er ei dristâu.

Accw ym *Mosgo* cymmysgid—y gawgen,
 A gwgs law gofid,
 Yn llawn o wenwyn a llid !—
 I'r hyddewr wr y rhoddid.

Ei fyddin, y gerwin gaerau—gadawynt,
 Ffoisynt—ymroesynt, er mawr eisiau,
 Yn hwylus droi'n eu holau;—ond digllon
 Unai gelynlion, enwog galonau,
 I rwystraw'r anwar restrau,
 Tros y tud er eu tristâu.

O'n gogylch, bu yn gwgu
Cosacwys ddi lwys, ddu lu.

Platoff yn anhoff cai yno—'n Unben !
 Rho'ai enbyd gyffro
 I'r gelyn, wrth oer gilio,
 O rewawg afrywiawg fro !

Garw ing ac egr angau,—er llidiawg
 A llydan eu safnau

A borthid ag aberthan
Llawn gwres, a llynau o grau.

Ufoliar hyf a welid,
Min hwyr—bu i'r awyr wrid
Eirias! a dinas ar dân,
Uchaf lef a chyflafan.
Tu'n ol oedd tân ulw—och!
A golygiad goleugoch,
Ac o'u blaenau, cwbl unynt
Yr eiry, ia, a'r oer wynt.

Llawer lleng a wnai drengu—yn dyrfa,
A bu dirfawr nychu,
Eiry gwyn gwnai oer gânu,
Yn drachwyrn hyll esgyrn llu!

Diengai y gwr mawr dynged,—ac aeth
Modd gwythawg i wared,
A'i lu gadawai ar led,
Yn eiddil a di nodded.

Hon wlad o wedd ofnadwy*
Wael a maith ni welai mwy,
Oer nwyfre—gerwin afrad,
Ddig wedd enhuddai ei gad!

Ys yn ddir anghall os un a ddringa,
Ei fawredd o'r diwedd, i lawr deüan;—

* Bonaparte, after his flight from Russia, called it the "frightful climate."

Llyna y gwelid Llyw enwog Galia,
 Collai'r bri dirfawr a llawer brwd acrfâ
 Trwy ddoethder a dewrder da,—ein gwron,
 A gwryd Albion—gyrid i Elba!

Oddiyno nid yn ddinerth,
 Mal cawr o gymylau certh,
 Tros y dôn, er traws y daith,
 Deuai'n ol mewn dawn eilwaith:
 Ail godai yn loew, gweddi
 A chlan fraint, ac uchel fri,
 Wr glew, yn erbyn Lewys,
 Gwrawl oedd—gyral o'i lys;

A'i brif ddinas obry a feddiannai;—
 Ei fawr rin y fyddin a foddiai;
 (Ner yn dreisiwr anwiw drôasai
 I'w gu deyrn, ac a'i gadawai)
 Ar yr orsedd eisteddai;—foi ar frys
 A wnai Lewys,—a hwn a all lywial!

Yna gwnaid Unaw egni dynion,
 Llu a mawr iasedd oll i ymryson!
 Efo ein gorwych hyf enwog wron,
 Y mwyaf a dewraf o gadorion.

I *Waterloo* a ynt trwy lid,
 Dygyfot, a dig ofid:
 A Llyw Frainc, llawn ainc a nerth,
 A gormod o ddrwg armerth,
 Yno daeth, trwy wyniau dig,
 Lew ffroenus a'i lu Ffreinig.

Ac ein Arthur, Cun nerthawl—hyferfawr,
 Cyfarfu'n egnawl;
 A'i fyddin yn ufuddawl,
 A llug eirf a lliwiau gwawl!

Yna yr aeth anwar ruthr,
 Efo gerwin fwg aruthr;
 Crych eilw yn rhoi croch alwad,
 Gyda gwŷn o gad i gad;
 Ar udgorn rhöai atgas
 Gryd, yn ddychrynlyd a chiras.

Miloedd ar filoedd o eirf a welid!
 Tua yr awyr hefyd dwyrëid
 Baneiri gwychion,—dynion adweinid,
 Enwawg yn hōni eu hiawn gynhenid.

Hy erwin bylor a heieirn belau,
 A gwyllt dân gyrid allan o'r drylliau.
 Lliaws truenus,—llais y taranau!
 A chyrrf dynion dewrion, yn dyrau,
 A gwelid er gofid gau:—oerwyd gwres
 Gwaraidd y fynwes, a griddfanau!

Eirf gloewon a hyfion hynt,
 Blaenllymion, a blin llamynt
 Yn gannoedd, ar flaen gynnau,
 Lliaws croch yn arllwys crau:
 Cleddid hwy mewn coluddion,
 Cyd saethid a brathid bron.

Y dra hir frwydr arw hon—oedd wresawg,
 Lwyrdaidd aerawg—pob milwr oedd wron.

O! anaf hylawr!—yno bu helynt!—
 Y ddwy fyddin yn ddiau a feiddynt
 Wynebu eu gilydd,—tra bygylnt
 Gwyar a chaddug a'u gorchuddynt!

Taenu gwae a wnai tân gwyllt,
 Yr un fath a tharan follt,
 Neu fforchawg eswrnawg fellt.
 Gerwin!—hwt—y deigrin hallt.

Gwael arwylaw—Galan a welid,
 Yno a gwyn-dost yn eu gwendid;
 A chrug afar, a'i chwaer gofid,
 Ag aberthau enwawg a borthid!
 Y ddaear a fyddarid—gan ystwrff;—
 Crau a chynhwrf croch a unid.

Gwyr a meirch, er grym erchyll;
 Ymgreinynt a helynt hyll:
 Swyddogion a dynion di-nod,
 Un barch a geffid yn bod.

Trengynt yn llaw y taer angeu—cuchawg
 O fewn cochion ffrydiau
 O wresawg a gwridawg grau,
 Wan bleidwyr! yn eu blodau.

Y gweddwon a'u blinion blant,
 Rai egwan, a hir igiant!

Diriaid y bu'r ymdaeru—am lwyddiant
 Gwyr a thrachwant er gorthrechu:

O amryw wlad yr oedd mawr lu,—Saeson
 Dewrion, a Brython, a dur yn brathu ;
 Ië a chai hywiw a chu—Gymro,*
 O Dduw ! yno ei ddienu,
 Aneirif filwyr yno ryfelynt
 Yn llu geirwin, mal erchyll gorwynt,
 Dynion anafus mewn gwaed a nofynt,
 Wbwb mawr i bayb a ymyrynt.

Wellington, y gwron gwych,
 A anfonai, yn fynych,
 O gwr i gwr ein garw gad,
 Yn ei gynnydd, iawn genad,
 Er annog, gu arweinydd,
 Llu dewr i ennill y dydd.

Ein gelyn anwiw gilwg,
 Tyn y'mysg y tân a mwg,
 Ai o'r maes, fal gormesydd,
 A llwyr dost gw nai golli'r dydd

Y fuddugoliaeth, i'w foddio, gwelai
 Calonawg wr enwawg, arweiniaï; †
 Ac yn chwyrn y mychdeyrn deüai
 Yn ol—dwys Gun—mewn niwl disgynai
 O'r Orsedd lle'r eisteddai;—ac o'i gof
 I dŷ anghof y diengai!
 Yno heddwch enhuddai—rhyfel blin,
 A'i hoff fyddin a ddiffoddai.

* This alludes to the death of Sir Thomas Picton.

† Sef Wellington.

**Ie i'r byd, hyfryd hedd
Dyranai ei da rinwedd.**

**Llyna Sior llenwai ei swydd
Tan ei Dad, neud dyn dedwydd ?
Er cael gan ei Ior Celi
Hedd, a nawdd i'n heiddo ni.
Trwy ei lu tarawai lawr
Hyll derfysg y Llew dirfawr ;
Y Llyw a fu a llaw faith
I ranu byd ar unwaith !
Dalid, a bwrid i ben
Y salaidd ynys Helen !**

**Er iddo neidio hyd nen,—anhiegor
'E ddeüai i oror y ddaearen.**

**Yr awrhon pa le mae'r ERYR†—a hydr
Ehedaj hyd awyr ?—
Y mae fe—iawn y myfyr,—
Y'nghanol anfeidrol fyr !**

**Ow Fawredd ! rhyfedd rhifir—eleni,
Morlonydd y gwelir
Ei FATH, mewn dwy-lath o dir !—
Dyrys sawd a arswydir.**

**Er awchus y gwr uchel,
Yn awr aeth yn gaeth dan gel :**

† The Eagle being the ensign of the French Emperor, therefore he is here termed the EAGLE.

Darfu ei hynod yrfa,
 Trwy fwriad a dirnad da ;
 A darfydded dir foddion
 Llid hyll, trwy yr holl wlad hon.

Trwy wiw nwyf, troi a wnawn—ddoeth Awen,
 Oddiwrth wewyr digllawn :
 Yn ein gwlad, mewn cariad cawn
 Fawr odli'n fwy hyfrydlawn.

Canwn y'nglych ein Cynnor,—
 Clod i sail Rhaglywiad Sior.
 Yn awr ef, yn wiw ei rin,
 Bor enwawg yw ein Brenin.
 Ar ol i hedd arwylaw haid
 O daerion wyniau diriaid,
 Cai ein gwlad efo llad llawn,
 Dda achles, wedd heddychlawn.

Llawn o serch y llenwai Sior—a'i wiw gled
 Y gwledydd maith tra-mor ;
 Gwiriaw a wna pob goror,
 Ei gu barch ef, y gwiw Bor.

Deg mlynedd, trwy ryfedd rad,—dymp hynod,
 Penai ei Raglywiad ;
 Yno'r Ion oreu Ynad,
 O'i ddr cymmerai ei Dad.

Galw ei Fam ddinam gwnai Naf,
 A'i frawd Iorwerth,* ffr dewraf ;

* Duke of Kent.

A'r wen Ferch,† yr hon a fu
Cerynt, a phawb yn caru.

Rhagluniseth a wnaeth hyn oll:—
Er erchyll oedd yr archoll,
Yn fwyn daeth yn fendithion
Ar ol y tymp, i'r wlad hon.
Bri odiaeth sydd i Brydain,
Geinfyg wedd gwynfa gain.

Nend mirain yw Llundain a lloŷ—lleaw ir
Yn llawn o arwyddion†
Ei Raglywiad, mai gloewon,
Rhes hardd yn eurau'r oes hon.

Pa wlad a gwellad mwy lwyr
A diniwad, dan awyr ?

Gwellân celfyddydau'n ddoeth—a welir
Dan ei olwg hygoeth;
Ar unwaith dysga'r annoeth
Llwyd naws, a dillada neeth!

Gloew mae'n goleuaw a mwg,§
Ei ddeiliaid—rhyfedd olwg!

Nend unynt dan ei adebydd—northawl,
Pob iawn wyrthiat celfydd,

† Prince's Charlotte.

‡ Particular allusion is here made to the great and beautiful improvements
at the West end of the Town—Regency Street, &c.

§ Gas light.

A llen faith?—llawen a fydd
Er eu llad, yr holl wledydd.

Ehelaeth wybodaeth bêr—a daena

Ei doniau'r faith nifer:

Goleuad gu i lawr

Hon yw, megys Huan Nêr!

Er llid dir a llwyr,

A bryd y bradwyr

Anfoddlonwyr ynydd eleni;

Efe hir a tydd

Loewaf wiw Lywydd,

Dihefelydd—da yw ei foli.

Gwna Cymru fawrhygu'r hawg,

Ei dewisawl Dywysawg;

Awen deg, oni wnai di

Dra addwyn wawd wiw, roddi

I'r gwr â'r eurawg goron,

A Llyw teg, yr holl wlad hon?

Yn alluawg bydded yn llywiaw,

Oreu swydd, efo hir-oes iddaw;

Ac unwedd, mwyniant gwnawn ddymunaw

I'w iawn ddeiliaid, dan ei ddwylaw;

Er yr hawg enwawg unaw—hedd a llad,

A doniau cariad yn eu cu euraw!

CYNFELYN,

sef THOMAS JONES, 90, *Long Acre, Llundain,*

(neu Glan Dyfi, yn agos i Machynlleth.)

CYWYDD

AD

DDYMCHWELIAD YR AIPHIAID

IN Y

MOR COCH.

 GAN MOESEN.*

ARWYRAIN wir a eiraf,
 A Chywydd newydd a wnaf
 Am berffaith deg waith Duw Gŵn;
 Nid diystyr y testun:
 Testun yn dangos toster
 A gwiw nawdd enwog ein Nér.
 O chaf wên hamdden, a hwyl,
 Ardderchog urdd ei orchwyl,
 Traethaf, a'i wyrth toreithiawg;
 Ar hyn fe genir y rhawg.
 Gwelir ac adwaenir Duw
 Yn ninystr dynion annuw,
 Ac yn ngwedd trugaredd gu
 Yn dilyn ei wân deulu.
 Duw sydd uchel ryfelwr,
 Uchel ei gamp uwchlaw gŵr.

 * I hwn y barnwyd y Tlws.

E foddodd Phar'o' a'i fyddia,
 Cuchfawr blaidd, 'n y coch-for blin;
 A bwriodd i wleib oror
 Ddihafarch wr a march—i'r môr:
 Ond i'r lân (mae gwiwlan go')
 Deuai egwan dŷ Iago.

Nid oedd Israel ond gwael gynt,
 Anhylwydd iawn ei helynt.
 Bu o weled du wlad Ham
 Wae dybryd i hâd Abra'm.
 Tremyg a beichiau trymion,
 Gofidiau a briwiau bron;
 Prudd fynwes mewn priddfeini,
 Gan aml loes chwervw oes a chwi.
 Cadw'r hll rhag eppilio
 Wnai gerwin frenin y freŷ;
 Gan eu lladd mewn gwŷn a llid,
 Os gwrryw a egorid.
 Meibion i'r ason rhifai;
 Ni chaent hedd, oeh! yn y tai.
 Bu'n anfen â bron-heb rus
 Yr anwylion i'r Nilus,
 I dori gwane afancod;
 Rhyfeddel annynol nod!
 Ond mŷn Iôn ddigon o ddwr
 Ar filain wrthryfelwr.
 Gŷr y gelyn gwargaled
 I gur môr, ac o'i â'r môd.
 Ar annuw Duw a dywallt,
 A dofir hwn â dwfr hallt;
 Ac er rhyfyg yr hoewfalch,
 Soddir a boddir y balch.

Gwelodd Duw eu gwaeledd dwys,
 Gwelodd hâd Iago wiwlwys,
 Bob yn ŵr mewn cyflwr caeth,
 A dygodd waredigaeth.
 Gyredd cymhwysodd Moesen
 I'w trafod a bod yn ben,
 Ac Aaron un fron a'i frawd ;
 Gywir ddwyfron, gwir ddeufrawd.
 Y diwg wŷr o deg wedd,
 A gwŷr enwog o rinwedd,
 Aent hwythau ar hynt weithion
 I'r Aipht ar alwad yr Iôn ;
 Traddodent eu trwyddedi
 I'w brenin anhydrin hi ;
 Traethent yn deg eu neges
 Ger ei fron âg araf wres :
 Duw'n tadau, (medd y ddau ddyn
 Wrth galed eirthiawg elyn)
 A'n gyrodd, 'e roddodd rym,
 Dros Iôn cennadon ydym.
 Ein dirith gennadwri
 Rhaid derbyn, a hyn yw hi,—
 Gollwng di yn ddigellwair
 Weision yr Iôn ar ei air ;
 A gad i'r rhai'n ymadaw ;
 Di lwydd fydd gafaél dy law.
 Medd Moses, I'th lês a'th lwydd,
 Wr, erglyw air yr Arglwydd ;
 Cofia'r gorchymyn cyfiawn,
 I'r bobl dod ollyngdod llawn.

Gerwinodd y gwr annuw,
 Cyfrôdd pan dd'wedodd am Dduw,

A mawrchwydd iaith lem erchyll
Rhoes anfad attebiad hyll :—

“ Annoeth adyn ! beth dd’wedi ?

“ Duw, dy Naf, nid adwaen i ;

“ Nid ofernwyd ei fawrnerth

“ Gaiff Israel o’ m gafael gerth.

“ Wyf lór y wlad o fawr lwydd,

“ Goreuglod unig Arglwydd :

“ A mynaf eaw, myn f’ einioes ;

“ Yma un Duw mwy nid oes.

“ I’ch ammharch ewch chwí ymaith,

“ A’r ffolion gweigion i’w gwaith.”—

Och nag ! o’i wŷn chwanegai

Gystudd mwy prudd i bob rhai ;

O’u beichiau y bu ochain,

A thrist oedd alaeth y rhai’n.

’E ddeuai’n awr Dduw y Nef ;

Gwarantodd y gair yntof :

Ac ar yr Aipht gyrai’r Iôn

Ei egr addig arwyddion.

Troi’n gochion eu hafonydd,

’E liwiai’r dwr lawer dydd.

Torf anwir, i’w terfynau

Gyrodd haint, llyffaint, a llau.

Trwy ing o wres trengi’r oedd

Anifeiliaid yn filoedd.

Locustiaid diriaid dewrion

Töai ar led daear lòn :

Gwyrdd lysiau a gardd laswawr

A ysent, llyfent y llawr.

Ffigyswydd, gwinwydd, gwenith,

I’w difa do’i pla i’w plith.

Taniai y mollt yn en mysg,
 Dryghinllyd rui cecullysg;
 Ochai yr Aiphit, a chwerw oedd
 Du ol llaw Daw y lluoedd,
 Ond un nos achos bchain
 A gwewyt hir gai y rhai'n;
 Angel yn ddirgel a ddaeth
 I deulu pawb o'r dalaeth,
 Gwnaeth fod yn barod i'r bedd
 I bawb un o hŷh annedd;
 'Doedd rhag haint fraint yn y frŷ,
 Nid diogel ond tŷ Iago,
 Lluddid ef lle lladdwyd Oen,
 Nâd aberth wyniau dubœn.
 I bob lle o bebyll Ham,
 O bai drigle, bu dryglam;
 Chwerw alaeth, Och! oer wylaw
 Fu'r nos hon, pob bron mewn braw;
 Cwynfan ar ol en cynfeib;
 Meirwon oedd miloedd o'u meib.
 A thrwy hyn, y gelyn gau,
 Gollyngodd rhag gwall angan,
 Israel o'i law mewn braw bron,
 Ie, gwthiodd ei gaethion.
 A thaerion iawn aeth creill,
 Ofnid y lleddid y lleill;
 Ac oeddynt bawb yn gwaeddi,
 I'ch taith ewch ymaith a chwi;
 Ewch yn ddigoll oll allan
 O'n mysg, yn sawrion a mân.
 Rhuddaur i'w dwylaw rhoddynt,
 Ba llecol, a rheidiol i'r hyn.

Yna i'w taith ymaith Ant,
 Y llwythau oll a aethant;
 Ac â chyfoetir gwych hofyd,
 O'u du boen, ac â da byd.
 Yn iach bellach i byllau,
 Ceisio gwelk ac ysig iau,

Bu edifar gan Fhar'o
 Ar frys en gollwag o'r fre;
 Ond d'wedai, Nid da ydowld,
 Syrddan dra, gwan a drwg oeddi.
 Fyddin gref, ebr of, maon bryd,
 Dowch eilwaith i'w dyohwelyd.
 Darfu bynt y dysfa hon,
 Rhwystrwyd hwy mewn tir catron;
 Gwyllia'r dydd, gollir eu dal
 Mi wn yno mewn anial,—
 A bryd du, ymbarotodd,
 Hynod weision dewisodd:
 Milwyr, trinwyr tarianau
 A hylion eirf i'w llawn wau;
 A chwechart o chwai wychion
 Rodan, a eberhydau hon.
 Y llu weithion oll aethant,
 A'u bryd mai gwynfyd a gant,
 Dilynent, gyrent i'w gwydd,
 Ac Israel mewn agoswydd,
 Yn nghroth Pihairth, pau hon,
 B'le is affwys Ballephen.
 Canfu'r rhei'n, druan, y drwg,
 Ac alaeth oedd y golwg:
 Golwg affwydd, gwael gyflwr,
 Byd oer caeth o bedwar cwr.

Difrod o'u blaen a dyfroedd,
 A chraig ar ddwy ochr oedd,
 A byddin erwin wrol,
 Aiphthiaid arw haid ar eu hól.
 Ai'n derfysg a chwyn dirfawr,
 Aeth eu llef i'r nef yn awr :
 Ond o'r nef Duw Iôr a wnaeth
 Wych dirion iachawdwriaeth.
 Yr Iôn i'w ffyddlon hoff wâs,
 'E roes iddo wers addas.
 Medd Duw nef, Pa'm y llefi ?
 Egyr môr â gair i mi.
 Am lân y dwr ymlaen dos,
 Yn y cwr hwn nac aros.
 Cerddwch, na sefwch yn syn ;
 Taraw di y môr terwyn
 A'th wialen i'th ddeheulaw,
 A lle bu'r dwr yn llwybr daw.
 Yntau'n ddigwyn, addwyn wr,
 A gredai ei Greawdwr.
 Gwnaeth ei wasanaeth a'i swydd,
 A rheolau Iôr hylwydd.
 A Duw mād, Ceidwad cadarn,
 Dangosodd ei fodd a'i farn.
 'E fu'n borth a ohynnorthwy
 Rhag i haint eu rhwygo hwy,
 Mynedfa caent mewn adfyd
 O gaeth gyfyngder i gyd.
 Ciliau adwy ceuledig
 Gwnaeth Duw Nêr o'r dyfnder dig ;
 A holltodd y môr halltwych
 I weithur sarn a thir sych ;

Mur cadarn o'r môr cadwodd
 O'u deutu, deg lu, dau glawdd.
 Beth ýnt? (ni fu o' bath ddau)
 Ba ond dwr yn bentyrau!
 Ynrwygiodd y mawr eigion,
 Ciliawdd dwfr, ceulodd y dòn;
 A dyranodd dwyreiniwynt
 Oleuber hawdd lwybr i'w hynt.
 Felly dwr yn filldiroedd
 Yn deg ddi freg ddeufur oedd;
 Ac i'w hynt aent rhagddynt rhwng
 Llawer cufudd, lli'r cyfwng.
 Tro enwog i'r trueiniaid,
 Rhag ofn y golofn a gaid;
 Nawsaidd iawn y nos oedd hi;
 Rho'i lonwych wir oleuni:
 Ond cai'r diriaid Aiphthiaid w'g,
 A du ollawl dywyllwg:
 Bu'r ddirbwys fygddwys fagddu
 O'r ol i'r gelynol lu,
 Ond i'r môr pan agorodd
 Aeth y rhai'n, milain y modd;
 Ar ol plant Israel yr ânt,
 Oll i'r rhwyd hyll y rhedant;
 Rhwyd o fewn rhuadwy fôr,
 Digofaint yn y dygyfor,
 Tristfan i'r meibion trystfawr,
 Y brenin a'i fyddin fawr,
 Nid sychdir yn hir a gaen' hwy;
 'E fydd trwm feiddio tramwy.
 Gwelodd Duw hwynt o'r golofn,
 A'u gwawr gwywai'n awr gan ofn,

Yn y môr côch marelai hwy,
 Môr Edom mawr rhuadwy,
 Sylwodd ar anrasokion
 Ammhur rhwng deufur y dôn;
 Terfysgodd, rhusodd y rhain,
 Hap legus, yn min plygain.
 Deallent, gwelent w'g Iôn
 Drwy y lliidiawg dralloedion:
 Y gwiw farch gwae ef ei wydd,
 A gwae farchog o ferchwydd.
 Daeth i'w mysg derfysg dirfawr,
 Anhydrin â'r fyddia fawr,
 Yn ei helynt anhwyliaw,
 Bron yn ffoi, brenia a phawb.
 Tynent yn erbyn tônau
 Mawrion certh a môr yn cau,
 Lle's oeddynt yn llwyr waeddi,
 Wchaw! yn awr och i ni!
 Mae Iôn â llied am ein lladd;
 Sw'n amlwg Duw sy'n ymladd
 O blaid Israellaid—bas rhyw
 Noddiant i'w gael in' heddyw!—
 Erwin dro! wrth yru'n drwm,
 Cynt i gyd caent godwm:
 Pharo wael am ffoi yr oedd,
 Ond adwy un nid ydaedd;
 'E lynai ei olwynion,
 Pan elai fe'i tafiai tôn;
 Dyryswyd yn ei dresi
 Genaw hyll wedd gan y ll'.
 Rhoddai waedd rhy ddiweddar,
 I'r gwarsyth mae byth mwy bâr;

Gan ei ddiried gynddaredd,
 Neidiai i fôr i wneyd ei fedd;
 A dybyriwyd o'i barabl
 Mewn llyn y gelyn a'i gabl.
 Dan anair heb air yn bod
 Mae yn tewi mewn tywod,
 Yn iach hoewgell a chugor,
 Neu dŷ mwy onid y môr.
 Dyma 'i frô, Pharo gaiff hon,
 Brô wgus y berw eigion.
 Trech nag ef oedd Duw nefawl,
 Gorchfygodd, mynodd y mawl;
 Ysgegfa rhoes i goegfalch,
 Torai ben y tew wr balch.
 Ysgytiodd einioes gwa
 Gwyr cedyrn, chwyrn oedd y chwa.
 Lledaid bwys trallod a bâr,
 Lluciodd i'w mysg dân llachar;
 Un dymhestl a wnai'n domen
 Euog wyr Ham â gwawr hen.
 Ai'r holl dorf o'r hyll derfysg
 Yn dra llwyd a bwyd i bysg;
 O'u taith ddiriaid daeth aruthr
 Oer ddichwain i'r rhai'n a rhathr;
 'Cyflafan buan a byr
 Ar^ofiloedd o ryfelwyr
 Llengau, cadbenau, bonedd,
 A gwerin wâg yr un wedd:
 Gan fawr nerth y rhyferthwy,
 Trwy angau tost trengent hwy.
 Archodd Duw i oerchwydd dwr
 Wibredeg ar y bradwr

A'i fyddin gethin i gyd,
 Duon beenwyr dan benyd.
 Tynu llif a'r tonau i'w lle
 A barwyd cyn y bore,
 Ymroliodd y môr eilwaith,
 Och! un ni ddiangai ychwaith.
 Du astrus fâr a distryw
 A gaid i bob enaid byw,
 Cauodd y môr, cuddiai mwy
 Ar redeg y fawr adwy;
 Ac i'w fawr nerth anferthol
 Dychwelodd, neidiodd yn ol.
 Galanas o'r gelynion,
 Hyll blaid yr Aiphtiaid, wnai'r Iôn.
 Sÿn eres! i aneirif
 Bu wely llaith—bol y llif.
 Soddent fel plwm, trwm fu'r tro;
 Pob enaid pawb ai yno.
 Mêr a chig y marthogion,
 I besgi daeth bysg y dôn.
 Iôn, er ei gwyn, anwir gâd,
 Chwalodd â dadymchweliad;
 Taffodd a lluchiodd i'r llaid
 Aml arwr a milwriaid,
 Ni arbedodd gerbydau
 Na choryn o'r gelyn gau.
 Blodau'r Aipht i'w bladur ef,
 Dyddim oeddynt rhaid addef;
 Cwliodd ei rhwysg claddai'r Iôn
 Ei blagur mewn bol eigion.
 Er llanciau, dwtr a'u llyncodd;
 Er eu twrf y môr a'u tôdd.

Ei fawl hoedd cai Duw fel hyn
 O ddialedd ei elyn ;
 Trwm ddolar a chur wna'r chwedl,
 Cynhwrf drwy lawer cenedl ;
 Syriaid, Amoriaid mawrion,
 I warth aent drwy y wyrth hon :
 Crynai penau eoronog,
 Synai gwedd Sehon ac Og.
 Ymledai, tòrai fel tân,
 Hyll gyni drwy holl Gana'n ;
 Philistiaid a Phalestin,
 Arw blaid, a gaent wewyr blin.
 Dodwyd ar ddugiaid Edom
 Lewyg o drist olwg drom ;
 A chai Moab adnabod
 Mai'r Naf yn benaf sy'n bod ;
 A Duw ei bobl diau bydd ;
 Gallnog yw eu Llywydd.
 Y wraig ni chai'r ddraig ddrygu ;
 Yn ei thaith bu'r Iôn o'i thu :
 Duw oedd blaid yn y dydd blin,
 Ni foddwyd un o'i fyddin ;
 Fe ranodd ddwfn fôr yn ddau,
 A dyrwygodd y dreigiau :
 Er ceisio, Pharo ni ffôdd ;
 Lefiathan lew a fethodd,
 Ond yn ddiwael Israel aeth
 I'r gu lân er gelyniaeth ;
 Aent, er eu lles, hwynt o'r llid ;
 A melys y canmolid
 Duw'n barod yn y bore,
 Ag un llais gwiw yn y lle.

Gwelodd Israel y golwg,
 Y ffordd yr aeth Pharo ddrwg :
 A dyben eu du obaith,
 A therfyn eu gwyn a'u gwaith.
 Gwledd a gorfoledd a fu
 Ar y golwg i'r gwiwlu :
 Caniadau, tânau tynion
 O aml rif yn moli'r Iôn.
 Cai Moesen awen newydd,
 Gwnai bêr ganiad doriad dydd,
 O frwd serch ; hyfryd ei sain
 Yw yr iraidd arwyrain :
 Caniad o wiw acenion ;
 Nid hawdd yw cyraedd nôd hon,
 Daeth Miriam ddinam ddoniau,
 Ac ar ei thafod clod clâu ;
 Ac organ fwyn gywirgerdd,
 A thympan i'w chân a'i cherdd :
 Bu wychgerdd ŵr a bachgen,
 Llanciau oll, ieuainc a hên :
 Gwragedd lu yn clymu clod,
 A nhwythau y genethod :
 Morwynion gwynion yn gwau
 Godidawg eu hediadau ;
 Pêr ôd a fu parod fawl
 Y mydresau medrusawl.
 Fe eiliau pawb fawl i'w Pen
 Parchus ganent i'w Perchen :
 Molai tafodau miloedd ;
 Un yw y gân enwawg oedd.
 Iachawdwriaeth wych dirion
 Yw swm yr Awdl hyawdl hon :

Gwardigaeth o gaeth gur,
 Iachusol hedd a chysur.—
 Unaf â nhwy yn fy nhaith,
 Myfyriaf am wîw fawrwaith;
 Molaf Iôn fyddlen a phar
 Gân Moesen, gwn ei mesur.
 O bur rywlog bêr awen
 Bydd ddidawl fy mawl. Amen.

MOESEN,

Sof, **PETER JONES,**
 25, Edmund Street, Liverpool.

OTWYDD.**Y MOR COCH YN FAES CELANEDD.**

GAN BINION,

Y GLYW byw, yr hwn sy ben,
 Adfywiad dod i f' awen,
 I edrych drwy y drych draw,
 A chalon i iawn chwiliaw
 Idraith myg am dy wyrth mawr,
 A'th diorfod waith dirfawr:
 Datgan dy glod, wiwnod waith,
 Mwyn eillier y manylwaith,
 Gan ystyried, brudded bron
 Derydd Isrâel dirion,
 Mewn adfyd, tristyd y tro,
 A pherygl dan law Phar'o.
 Rhoes gwyn at Iôr, addwyn Ri:
 Gwiwlwydd oedd dirgel weddi;
 Teimlodd, gogleisiodd ei glau
 Fynwes gan ei griddfanau.

Pan oedd drymaf, caethaf cur,
 Madwys y daeth ei Modur
 I'w noddi a'i rhoddi'n rhydd;
 Llewych a roes a Llywydd :
 Cododd Foses gynes gain,
 Wrol, dda was i'w harwain.
 Ar ol hyn daeth dychryn du ;
 Daliodd *Phar'o* a'i deulu.
 Y Duw byw, y diau Bèn,
 A fygodd ei genfigen
 Trwy blaau, diau Duw Iôn,
 Ië ddeg, hyd ei ddigon,
 I wyro *Phar'o* ddi fydd,*
 I'w gÿru hwy heb gerydd
 O ei wlad, drwy rad yr Iôn :
 Cawsant gychwyniad cyson
 O *Gosen* ; drwy Bèn y byd :
 Odfa rhyddhau o adfyd.
 Cyd gychwyn, ya hydyn wedd
 Yno bob un o'i ànedd.
 Ac ar y daith hirfaith hon,
 Gwefant, eilwaith, eu gálon
 Mawrnerth, yn gerth iawn eu gwg,
 A'u calon yn llawn cilwg,
 Heb ganfod y Bod sydd bèn
 Grymusawl, ac Iór Moesen,
 I gyrchu, yn un gorchwyl,
 Ei weision, ddyinion oedd ŵyl
 Mewn trymder. Eu Nêr a'u nawdd
 O'i radau, a'u gwaredawdd.

* 1 Tim. 5. 8.

Mawr ddychryn, mewn dyffryn du,
 A dolor i'r holl deula,
 Ac ar bob llaw braw i'w bron;
 Gweled creigiau a galon:
 Y gwagedd, a'u gwedd yn gaeth,
 Wylant yn llawn o alaeth;
 A'r plant oedd mewn soriant sŷn
 Dechreu ofni a dychryn.*
 Israél, dŵy ddirgel ddawn,
 Cafwyd yn llaw Daw cyfiawn
 Wrth fis y môr, dyfafer dwys:
 Eu gwir-fydd oedd yn gorplwys
 Ar eu Mawr Honer Iloa;
 Disgwyliant a dwys galon.
 Adfer ein Daw Nêr o'i awydd
 Ei dda weision ddewisawdd.
 Hollallnog, amrog Ión,
 A rwygai y mawr eigion,
 Yn ffordd, dda brif-fordd ger bron
 Ei ddewisawl dda weision,
 Dwyrcinwynt, ar yr hant hon,
 Holltodd y dyfroedd heilliam:
 Gwialen gan Bôn y byd,
 O'i fawredd gwna'i harferyd,
 A llaw ei was, addas oedd
 I daro y dyfnderoedd.
 I'w law fan, yr elfenan
 Oedd, o hyd yn ufuddha.
 Israél ddiogel dda,
 Hi gafwyd, oll yn gyfa,

* Josephus.

Ar dir sych, dewrwydych y dydd,
 Gwir ydyw, drwy'r gwaredydd.
 Deryw i'r Aiphthiaid diras
 Eu herbyn gwed'yn yn gas:
 I'r môr â'r gerth, hyll-gerth haid
 Ar ol yr Israellaid.
 Uffernol Phar'o ffyrnig,
 A llu i'w dal, y llew dig!
 Gyda'i feirch hyfeirch hefyd,
 A'i daclau gorau i gyd:
 Marchogion dewrion diriaid,
 Aent i'r môr, hyll oror llaid.
 Rhywiog Iôr enwog, uniawn,
 A ganfu y llu oedd llawn
 Gelyniaeth o galonau
 I weision mwynion Duw maü.
 Trwy dân, ei lân oleuni,
 Edrychodd, rhoddodd ein Rht
 Ei detfysg at lu' dirfawr
 Oedd gethin, tathir fyddin fawr:
 Tynodd rhwng dau-fur tônau,
 Eu holwynion ceimion, cau.
 A gyrrant tua'u goror
 Mewn ofnau, rhwng muriau môr:
 Waeth-waeth, gyru'n drwm weithian,
 Ceisio ymlusgo i'r lân.
 O hwyr, o lwyr alarwm!
 Gerwin drefn! a gyru'n drwm!
 Gwaeddant, er llymder eu llid,
 " Ffown o'u llym arwlym erlid:
 " Oblegid, rhaid in' blygu:
 " Yr Arglwydd yw llywydd y llu."

Yr wybren uwch ben e'i bodd,
 Yn fanwl a anfonodd
 Ei thwrf, yn llawn cynwrf caid
 Yno uwch ben pob enaid;
 Yn ddychryn i'r gelyn gau,
 Newidiol, cās eu nwydau.
 Cymylau yn dwyn dafnau'n dwr,
 Caredig i'w Creawdwr,
 O'u lleoedd fel llynoedd llawn,
 Cofier, ar air Duw cyfiawn,
 Er gwyro oll i'r gweryd
 Y fyddin gethin i gyd:
 Taranau, diau, Duw Iôn!
 Rhyw gedym bell ergydion
 Y waith hon, fel dydd brawd,
 Gododd uwch Aiphthiaid giwdawd;
 A goleu mell, Iôr gwiwlan!
 Wnaeth Duw, fal diluw o dân;
 A barnau Duw a'i bur nerth
 Ar Phar'o i'w guro'n gerth;
 Gyrai'r môr a agorawdd,
 Cyn anterth, i'w nerth yn hawdd
 A ddarfu Duw, yn ddirfawr,
 Ar frenin a'i fyddin fawr,
 I droi annuw drueiniaid
 O'u cwr, y llybwr i'r llaid;
 Einioes yr holl rai annuw
 Ballodd, pan y digiodd Duw.
 Grymiol ac anfeidrol *Fôd*
 A didwyll yw y Duwdod.
 Cyfiawnder ein Nêr a wnaeth
 A chyfion ei uwchafiaeth

Ddal Phar'o yn y tro trwch,
 Trosto y toawdd tristwch :
 Peryf nef, puraf ei nod,
 A'i drylliaudd, mewn blin drallod.
 Y Môr Côch, fal muriau caeth,
 Anelodd eu dynoliaeth.
 Maes celanedd, culfedd caid
 Yno i bob rhyw enaid
 O honynt, (ar yr hynt hon
 Cofier am wyrth y cyfion)
 Brenin, fal y gwerin gwar,
 A foddwyd er mor fyddar
 Fu'r creulon, afradlon fryd,
 A chalon heb ddychwelyd;
 Caeth-was diras arhosodd
 O hyd ei fywyd o'i fodd :
 I ddiabol a'i ddyfais
 Bu ufudd, heb gudd i'w gais :
 A damwain pen ei dymhor,
 Darfod yn mysg milod môr.
 Ca'dd Phar'o 'i wyro o'i waith
 I gern uffern a'i heffaith.
 O erlid mewn llid yn llawn,
 'E gafodd a oedd gyfiawn :
 Ei fodd, gyda'i fyddin.
 Mewn môr; y blaenor mawr blin :
 A gorfod, yn eu gyrfa,
 Gydnabod y Duwdod da
 Yn gyfion yn rhoi gofid
 Marwol, dialedd lid.
 Methodd Aiphthiaid ymwithio
 Drwy'r môr; y dyfn-fôr fu'n dê

Iddynt; er mawredd eiddo.
 Syndod! llawn trallod y tro.
 A llaw Duw fu y llyw doeth,
 O! cofler, yn llawn cyfoeth,
 Ddaliodd Phar'o a'i ddëiliaid
 Mewn môr; e'u goror hwy gaid.
 Rhoent ar feirch. cryfeirch, eu cred;
 Gwyrant heb Dduw i'w gwared;
 Serth isel y syrthiasant,
 Dan gerydd Glyw byw, i bant.
 Teryf daeth Duw i'w taraw
 Ag adfyd, oer dristyd draw;
 O'u cýrau; dan y cerydd,
 Mewn trallod, darfod a'u dydd;
 O ing! nid bu ddiangol
 O'r dwr un Aipht'wr yn ol.
 Gwasgwyd y march i gysgu
 Dan gerydd Llywydd pob llu:
 A'r marchog enwog unwaith,
 A foddwyd, dofwyd i'w daith.
 Digofaint Duw'n dygyfor,
 A'i farnau, rhwng mariaau môr,
 Brenin yr Aipht yn braenu,
 A'i fawrion oedd lewion lu.
 Cyfiawn yw Duw, O! cofler,
 A pherffaith'n ei waith yw Nêr;
 Uniondeb er neb a wna
 Hefyd, y mawr Jehofa!
 Elwch, heb unrhyw alaeth,
 Yn y tro ar fin y traeth,
 A gafodd Moses gyfiawn,
 A'i dylwyth, bob llwyth yn llawn,

A gweled ar gyl y dôn,
 Gelanedd y gelynion.
 Cynesawl y canasant
 Wir fawl i'w Glyw, air syw sant.
 A melys iawn y molant
 Yn rhydd, oân newydd a wnant.
 Rhioddawg iawn y rhoddant
 Fawl heb rith; ac i'w plith plant,
 Heb eiriach, ydoedd barod
 I ganmawl anfeidrol Fod.
 Miriam, am ei hymwared,
 A'i thympam, roes gân yn ged
 O eurglod fawl i'w Harglwydd,
 O galon bur, radlon, rwydd.
 Llangcesau, dian, deuodd
 I ganmawl a'u mawl un modd.
 A'u testun oedd, rhaid tystio,
 Am ffordd, yn brif-ffordd i'w bro,
 Agorodd Duw o'i gariad:
 Eu fyddlon dda dirion Dad.
 Trwy fydd bu dedwydd y daith
 Y teulu at eu talaith.
 Ei ddidwyll addewidion
 Gyflawnodd, rânodd yr Iôn
 Iddynt, fel y bu iddaw
 Yn ammod y Drindod draw.
 'E gadwodd Duw y giwdawd
 Er mwyn bythol freiniol frawd.
 O honynt oedd i hân
 I ddynion oedd lymion lu.
 A IACHAWDWR gwych ydyw,
 O'i ras, i Adda a'i ryw,

O! dirion iachawdwriaeth
 I Isrâel dirgel daeth.
 Diogel y llu digoll;
 Dan y gwaed hwy gaed heb goll:
 Diogel Duw a'u dygodd
 I'r lân, yn y fân, o'i fodd.
 Hynod y sanctaidd hanes,
 I ddynion llymion er hes
 I gofio Duw a'i gyfoeth;
 Bob pryd nes â'r byd yn boeth:
 A goleu iawn y gwelir
 Gwyrth Iôn uwch dynion, ar dir
 A moroedd, er ymward
 I'r dynion gwir union gred;
 A'i gerydd i'r dlargariad
 I'w gyfraith berffaith, heb wad.
 Dan gysgod y Bôd sydd ben.
 I ganu byth heb gynnem,
 Y byddom bawb, er boddi
 Yr Aiphthiaid mewn llaid a lli':
 Ac edyn Duw'n cysgodi
 Rhag Aiphthiaid; ein henaid ni.

EINION,

Set, JOHN ROWLANDS, Pentir, Swydd Gaeruarfon.

YNGLYNION

PR

ENFYS.

ENFYS yn ddilys a ddyd—iawn arwydd
Fanerawg i'r holl fyd,
Na yrr Ion unrhyw epyd
Ddwr barn i orchuddio'r byd.

*Eiliedydd.**

Arall gan yr un gwr.

Wedi'r diluw, Duw o'i fad-waith—rhinfawr,
Wnae'r Enfys uchelfraith,
I ddweyd yn ei rhyfedd iaith
Na welir diluw eilwaith.

* Sef Willam Williams o Ddinbyob, ac iddo ef y barnwyd y tlwa.

Gwiw fwa trilliw i fyd drylliog—rhoed
 Er hyder calonnog :
 Na anghred a hwn y' nghrog
 Nid dylif—nôd tawelog.

Noa.

Siriol yw'r Enfys eurwedd,—ein elwch,
 Cain heiliad trugaredd ;
 Ysgrifaw'r tirion Fawredd
 Wrth gyfammod hynod hedd.

Alawn.—T. W.
 Merthyr.

Ceinfawl nôd da'i glod Duw glwys—yw'r Enfys
 Gorhanfod Paradwys ;
 Goleu'r cyfammod gwiwlwys ;
 Llaw'n Ior da y Lluniwr dwys.

Yr un.

Modd arall.

Wyf Fardd, a'm cân i'th harddwch,—deg Enfys
 Dy geinfawl yw'm elwch ;
 Seithliw'r Nef! haddef heddwch
 Dy Ner, sy'n dy floywder fflwch.

Yr un.

O'th law Naf caed seithliw nod,—trwy hauŵaith
 Tra hwylus ar gawod :
 Tyst Duw, nad oes diluw'n dod
 Yw'r Enfys pur ei hanfod.

Llywelyn.—R. W.
 Merthyr.

Ol difaf gwaith haul Dofydd—yw'r Hafys,
 Ar iawnfad gawodydd :
 Tyst cadarn, hyd farn, na fydd
 Un diluw dros ein dolydd.

Yr un.

Yr Enfys, gwnai Duw Ior anfon—Yn nôd
 I ni ddaearolion ;
 Rhag i dwrf a rhwyg y don
 Ar ogwydd, yrru'r Eigion !

Merddyn.—W. W.
Llanymddyfri.

Rhodd Dawdod hynod yw hon—Yr Enfys
 Mawr wynfyd i ddyinion—
 Haul a gwlaw aelau gloewon—
 Bwa Duw rhag Diluw Don.

Griffith Parry,
Dolgellau.

D. S. Daeth yr Englyn hwn yn rhy ddiweddar i blith yr yndrechwyn.

Eafys o wregys yr eigion—a lunir
 Pan lona gwedd hinon :
 Amryw liwiau mor loewon
 A ry haul i euraw hon.

Euromwy.—T. J.

Llundain.

E dyngai Ion y dengys,—mewn mil o
 Gymylau yn hysbys,
 Nod ei gyfammod a'i fys,
 Trwy ddanfôn ei der enfys,

Yr un.

**Teg Enfys, el bys, ail i bwy?—i Ddaw,
Na ddaw ail ryferthwy;
Gem didawg gymmodadwy,
Rhag dylif y mawr lif mwy,**

*Esyllydd,
Llan Elwy.*

**Awyraiddd *fys*, arwydd fod—Duw cyfiawn
Yn cofio'i Gyfammod,
A'n daear ni ydyw'r nòd,
A'i henw yw *Enfys* hynod.**

*Ap Owen.—W. O.
Trallwng.*

**Er Enfys dengys dangnes—rhag dylif
Rhwyg dial uchelnes;
Arwydd a gwystl, gwir addef
I ddyn, o nawdd gan Dduw nef.**

Esyllydd.

**Y gwylaw yw aeliau gloywon,—a roddwyd
Yn arwydd i ddynion,
Na fawdd Duw, a diluw don,
Eilwaith ei ddaearolion.**

Crwydryn,

**Arwydd yw i'a gwydd i gyd—cu ammod,
Mewn cwmwl ger haul-bryd,
Na wna ein Pen un onyd,
A dŵfr beri boddi'r byd,**

Ararat,

Adlewych gerwych gywrain—o'r gafod
 Ar gyfer haul wengain,
 Enfys hir ar len furain
 Y cwmmwl glas—cynfas cain.

Illtyd.—D. E.
 Llanymddyfri.

'Tragywydd ni fydd i fod—Ail Ddylif
 Gwel ddilys gyfammod!
 Duw o'i nawdd adawai'n nôd
 Yr Enfys a'i wir hanfod.

Dimetian.—W. W.
 Llanymddyfri.

Cathog saith liwiog o wlaw—o gwelwch
 Mewn gofen'n disgleiriaw;
 Ammod helaeth mwd hylaw,
 Bwa o Dduw, bywyd—ddaw

Carwr y Gwir.—R. H.

Hyder yw'r Bwa hoywdeg,—i ddyrnion
 O ddoniau goreudeg;
 Rhodd Duw rhag Dilaw yn ddeg,
 Gwir ydyw mewn gwâr adeg.

Cytedda Wledyg.—D. J.
 Merthyr.

Gan Dduw, rhag diluw, yn dêr,—y rhoddwyd
 Yn arwydd tra amser,
 Gwlaw ydyw, lliwiau gloywder
 Mewn heulrod, dan nôd Duw Nêr.

Pererin.

Pa wrthddrych purwych parod—a welaf?
 Gwiw heuliad y Duwdod;
 Yr Enfys pur ei hantod;
 Heddychol a nefol nôd.

Gwilym Ddu.—R. W.
 Bedwlyn.

Bwa'r Arch cyfarch mewn cufawl—côf im'
 Cyfammod Duw nefawl;
 Dwr baid mwy, Duw Iôr boed mawl,
 Drig iddo yn dragwyddawl.

Eustace Richards,
 Merthyr.

'N gu addas i gyhoeddi—doe bwa
 Duw bioedd ei rhoddi;
 Tân a dwr genadwri,
 Arwydd gref o'r nef i ni.

Yr un.

Bwa er Noa ar nen—yw'r Enfys
 Yr unfodd nid amgen;
 Frith wlawiog ddydd, bydd uwch ben
 Goleu hwylus gwawl haulwen.

Cynddelw.—J. H.
 Llanymddyfri.

Bywiog y dengys bwa—mai cofio
 Mae'r cyfiawn Jehofa:
 Y cyfammod dwys-glod da
 Diniwed, wnaed â Noa.

Trahaiarn.—D. Saunders.

Llewych yr haul pan liwia,—y cwmwl,
 Cu ammod Jehofa;
 'R Enfys a ddengys yn dda
 I'r byd, Duw a'i arbeda.

Casnodyn.—W. W.

Llanymddyfri:

Bwa cyfammod bywiawl—Duw Iôn,
 A dywynna'n siriawl
 Ar gwmmwl, clir gwelir gwawl
 Adlewych hynod liwiawl.

Madog.

Llanymddyfri.

Arwydd da dedwydd Duw Dad,—yw'r Enfys:
 Er anferth ddiluwiad;
 Cof mud o'r cyfammodiad,
 Doniol hêdd â dynawl hâd.

Y Falwyden.—Edward William, ieuaf

Bont Faen.

Caer wrtdiog y Créawdwr,—agorgylch
 Ac argau'r Deddfroddwr,
 Ddydd ammod, heb ddiddymwr,
 Na rydd Duw ddiluw o ddwr.

Gwion Bach.—Hugh Evans,

Ty'n-y-Rhes, Clynnog, Arfon.

Elfenau seliau sylwedd,—cof emau
 Cyfammod amynedd,
 Haul a gwlaw'n dyhidlaw hedd
 A golau, er ymgeledd.

Llewelyn.—Lewis Thomas,

Llanrwst.

Yr Enfys weddus wtwlon—o lwiau
 Sydd lawen arwyddion,
 A llais Duw er lles dynion
 Na fawdd byd, hefyd yw hon.

J. J.

Llanelly, Br.

D. S. Derbyniwyd hwn, yn hir wedi yr amser a benodwyd
 gan y Gyndalithas.

To the Hainboth.

LOVE benign thy sign thus sent—We hail it,
 How wholly resplendent
 Attend! In grace transcendent
 God we know, his Bow has bent.

Taliesin Williams,
 Merthyr.

YNGLYNION :

CLOD IFOR HAEL A'I DDISGYNIAID

A gymeradwywd yn Eisteddfod Aberhonddu, 1892.

DRUWCH Feirddion llon yn llu ;—O deuwoh
I dawel gŷd-ganu
Yn deilwng fyth i deulu,
A gaid i'n tadau môr gu.

IFOR HAEL ddiwael i'w ddydd—yn addas
A noddai'r awenydd ;
Ei ged, heb lai rhoddai'a rhydd
Yn barodwvch i brydydd.

'E gai'r Bardd yn hardd o hyd—dan waywloes
Dan alar tywyllfyd,
Dan rwystrau a beichau'r byd,
O law IFOR oleufyd.

IFOR hen o sawr hanes !—wivgu wr,
Y mae gwaed dy fynwes,
Gu iawnwvch, *heddyw'n* gynnes
Yn dy wyrion llon, er lles.

Rhyw ethol wr o'th hillân—a gododd
Yn gadarn Borth gwiwian ;—
Noddwr, mwyn garwr y gân,
Em eurgerdd, Sir CHARLES MORGAN.

Gwaeddwn, llon ganwn yn gynnar—llwyddiant
Oll iddo, Bor hawddgar ;—
Er iawn nerth i'r awen wâr
Twr digwvmp f'o *Tredagar*.

Dylluan.

DANIEL DDU, o Geredigion.

YNGLYNION:
COFFADWRIAETH AM YR ENWOG GYMRO,

Theophilus Jones,
HANESYDD BRYCHEINIOG, &c.

BRYCHEINIOG, mewn braw a chwynion,—a welaf,
Yn wylo'r deigr heilltion,
Am farw ei mwyaf wron,
Ow! sef THEOPHILUS SION.

Garw yw toi â grut daear,—oer a mud,
Wr mor wasanaethgar;
Ac ni roed erioed i'r âr,
Ddoniog em, ddyn o'i gymmar.

Y gwr a fu'n ysgrifenydd—' *Hanes*
Brycheiniog' a'i threfydd,—
A'i waith, fel Hynafiaethydd,
Hyd y farn, mewn clod a fydd.

Ow'r Brython! ai estroniaith—ddaw i'n llawr,
I ddwyn lle'n hen famiaith?
Ofnwn ni— colofn ein hiaith,
Diammeu, dynwyd ymaith,—

Mur odiaeth *Cymru* ydoedd—wyr *Awdur*
Odiaeth y PRIF-ORSOEDD:
Uchel y saif ei achoedd,
Cain adail i'n cenedl oedd.

Tra gwneir pill, a sill o son,—yn gynhies,
Am gendl y Brython,
Gwiw-fawl, a pharchus gofion,
Saif am Theophilus Sion.

Hiraethur.—*Evan Evans,*
Trefriw,

This book should be returned to
the Library on or before the last date
stamped below.

A fine of five cents a day is incurred
by retaining it beyond the specified
time.

Please return promptly.

